



Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch mewn Prentisiaethau

Y Dulliau Cyfredol

Yr Ail Argraffiad

Cynnwys

1	Y ddogfen hon	1
1.1	Diben y ddogfen hon	1
1.2	I bwy mae'r ddogfen hon?	2
1.3	Pa mor aml fydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau?	2
1.4	Y derminoleg	2
1.5	Strwythur y ddogfen hon.....	3
2	Y cyd-destun.....	4
2.1	Beth yw prentisiaeth?	4
2.2	Ynghylch prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch y DU	7
3	Sicrhau ansawdd addysg uwch mewn prentisiaethau	13
3.1	Cyfrifoldebau darparwyr addysg uwch, cyflogwyr, prentisiaid ac eraill	13
3.2	Dysgu ac addysgu.....	25
3.3	Asesu prentisiaethau.....	30
3.4	Profiad y prentis	35
3.5	Rheoli darpariaeth gydag eraill	38
3.6	Cwynion ac apeliadau	42
3.7	Monitro ac adolygu	46
4	Y casgliadau a'r camau nesaf.....	48
5	Atodiadau.....	49
5.1	Aelodau'r gweithgor addysg uwch mewn prentisiaethau (ar gyfer yr argraffiad cyntaf)	49
5.2	Aelodau'r gweithgor addysg uwch mewn prentisiaethau (ar gyfer yr ail argraffiad)	50
5.3	Cyrff allweddol.....	51
5.4	Dogfennau allweddol ac adnoddau eraill	52
6	Nodweddion y Rhaglenni Prentisiaeth - Cymharu'r pedair gwlad	53
7	Rhestr termau.....	57

1 Y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut mae'r disgwyliaid sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd addysg uwch, fel sydd wedi'u nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU, yn ystyried ac yn berthnasol i fodelau presennol o brentisiaethau, a rhai sy'n datblygu yn y DU, sy'n cynnwys addysg uwch ar lefel israddedig ac ôl-raddedig. Ymysg modelau o'r fath mae Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd yn Lloegr, Prentisiaethau Lefel Uwch yng Ngogledd Iwerddon, Prentisiaethau Gradd yng Nghymru, a Phrentisiaethau â Gradd yn yr Alban. Mae'r ddogfen yn sôn am brentisiaethau sy'n ymwneud ag addysg uwch ar lefelau 4 i 7 o'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* ac ar lefelau 6 i 11 o'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban*.¹

Nid yw'r ddogfen hon yn ceisio dehongli neu esbonio gofynion eraill gan gyrrff rheoleiddio a chyllido sy'n ymwneud â phrentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch; ond, mae'n darparu rhywfaint o wybodaeth am y rhain er mwyn gosod y cyd-destun, fel y mae hwnnw'n berthnasol i ddisgwyliaid y Cod Ansawdd. I gael gwybodaeth ddiffiniol am ofynion ychwanegol cyrff rheoleiddio a chyllido, dylai darllenwyr wirio gyda'r cyrff perthnasol sy'n gyfrifol am osod y gofynion hynny.

Nodwch:

Mae Cod Ansawdd y DU yn cael ei ddiwygio yn 2018. Cyhoeddwyd y Cod Ansawdd newydd² ar 27 Mawrth 2018; cyhoeddir cyngor ac arweiniad cysylltiedig ym mis Tachwedd 2018. Bydd y Cod newydd yn dod i rym ym mis Tachwedd 2018.

Mae'r ddogfen hon wedi'i seilio ar God Ansawdd Addysg Uwch y DU 2015³ a bydd yn cael ei hadolygu i alinio gyda'r dyddiad gweithrediadol ar gyfer y Cod Ansawdd newydd.

Bydd rhywfaint o'r cynnwys yn newid ond bydd yr egwyddorion yn parhau'n debyg i raddau mawr.

1.1 Diben y ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw:

- tynnu sylw at elfennau allweddol i ddarparwyr addysg uwch eu hystyried mewn perthynas ag ansawdd a safonau prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch
- tynnu canllawiau o God Ansawdd y DU sy'n arbennig o berthnasol ar gyfer darparu prentisiaethau sy'n cynnwys cymwysterau addysg uwch⁴
- darparu pwynt cyfeirio ar gyfer prosesau sicrhau ansawdd ddarpariaeth addysg uwch mewn prentisiaethau nad ydynt yn cynnwys cymhwyster addysg uwch neu sy'n eistedd y tu allan i'r cymhwyster
- amlygu nodweddion y gwahanol fodelau o brentisiaeth yn y DU a allai fod angen ystyriaeth arbennig mewn perthynas â dulliau sicrhau ansawdd ym maes addysg uwch.

¹ Gwelwch www.qaa.ac.uk/quality-code/the-existing-uk-quality-code/part-a-setting-and-maintaining-academic-standards

² Gwelwch www.qaa.ac.uk/quality-code/the-revised-uk-quality-code

³ Gwelwch www.qaa.ac.uk/quality-code/the-existing-uk-quality-code

⁴ Bydd Pennod B10: Rheoli Ddarpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill y Cod Ansawdd yn ddogfen gyfeirio allweddol i ddarparwyr addysg uwch sy'n ymwneud â phrentisiaethau. Ond, mae Cod Ansawdd y DU yn berthnasol yn ei gyfanrwydd i ddarpariaeth addysg uwch o fewn prentisiaethau. Gwelwch www.qaa.ac.uk/quality-code/the-existing-uk-quality-code/part-b-assuring-and-enhancing-academic-quality

Nod y ddogfen yw disgrifio i'r sector addysg uwch, y cyflogwyr, y prentisiaid a'r rhanddeiliaid eraill y ffyrdd y mae dulliau o sicrhau ansawdd cyfredol yn ymdrin â modelau prentisiaeth, yn ogystal â phennu meysydd lle gallai modelau prentisiaeth ofyn bod egwyddorion presennol yn cael eu dehongli a'u gweithredu mewn ffyrdd newydd. Y bwriad yw adlewyrchu a chefnogi gwaith y darparwyr addysg uwch sy'n darparu cydrannau o brentisiaethau yn barod, a darparu gwybodaeth i eraill sy'n ystyried darparu prentisiaethau yn y dyfodol.

Darperir y ddogfen hon er gwybodaeth yn unig. Nid yw'n arweiniad QAA ffurfiol ac nid yw'n ffurfio rhan o God Ansawdd y DU. Mae QAA wedi cytuno gyda chynrychiolwyr o'r sector a rhanddeiliaid allweddol eraill y bydd hi'n briodol, yn y tymor hirach, i ddatblygu Datganiad o Nodweddion, sy'n rhoi darlun cynhwysfawr o brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch drwy'r DU gyfan. Bydd y datganiad yn archwilio nodweddion allweddol y gwahanol fodelau sydd ar waith yn barod, yn enwedig am fod y rhain yn berthnasol i safonau academaidd.

Fodd bynnag, am fod natur a safle'r prentisiaethau ar draws y DU yn dal i ddatblygu rydym wedi cytuno na ddylid cychwyn datblygu datganiad o'r fath nes bydd yr arfer ar draws y DU wedi'i sefydlu a'i gynnwys yn llawnach. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd hynny'n digwydd yn 2018-19. Bydd y broses ddatblygu ar gyfer y datganiad yn cynnwys ymgynghoriad estynedig a manwl gyda rhanddeiliaid o bob cwr o sector addysg uwch y DU, yn ogystal â chyflogwyr, prentisiaid, a gwneuthurwyr polisi.

1.2 I bwy mae'r ddogfen hon?

Efallai y byddwch eisiau darllen y ddogfen hon os ydych:

- yn cynllunio, darparu a/neu'n asesu prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch, neu'n ystyried gwneud hynny
- yn gyflogwr sydd eisiau canfod rhagor ynglŷn â sut y sicheir ansawdd y prentisiaethau hynny sy'n cynnwys addysg uwch
- yn sefydliad sy'n ymwneud â phrentisiaethau yn y DU sy'n cynnwys addysg uwch, er enghraifft cyrff rheoleiddio a chyrrff sector.

1.3 Pa mor aml fydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau?

Ein bwriad yw diweddarau'r ddogfen hon yn rheolaidd i adlewyrchu'r datblygiadau yn y tirlun prentisiaethau ar draws y DU a'r newidiadau i fframweithiau rheoliadol.

Os ydych yn ymwybodol o newidiadau neu ddatblygiadau yr hoffech i'r ddogfen eu hadlewyrchu, anfonwch e-bost at enquiries@qaa.ac.uk os gwelwch yn dda.

1.4 Y derminoleg

Mae prentisiaethau addysg uwch yn gweithredu o dan systemau datganoledig ac yn defnyddio terminoleg sy'n amrywio o un wlad y DU i'r llall. I gynnwys yr holl lefelau a themau yma, bydd y ddogfen hon yn cyfeirio at y rhain yn gyfan fel 'prentisiaethau addysg uwch' neu 'brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch'.

Mae prentisiaeth yn swydd sy'n cynnwys gwaith, addysg a hyfforddiant yn rhan o safon neu fframwaith cydnabyddedig; prentis yw unrhyw unigolyn sy'n gwneud y rôl honno. Fodd bynnag, fel cyfranogwr mewn rhaglen addysg uwch byddent hefyd yn cael eu hystyried yn fyfyrwr gan y darparwr addysg uwch. Ysgrifennwyd Cod Ansawdd y DU gan ystyried myfyrwyr, a dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at fyfyrwyr yn y ddogfen hon, yng nghyd-destun y Cod Ansawdd, fel cyfeiriadau at brentisiaid.

1.5 Strwythur y ddogfen hon

Rydym wedi strwythuro'r ddogfen hon i adlewyrchu'r elfennau cyffredin ar draws y dulliau sicrhau ansawdd ym mhedair gwlad y DU, a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae pob adran yn agor gyda disgrifiad o'r sefyllfa ar draws y DU ac, yn dilyn hynny, flychau cod lliw sy'n cynnwys disgrifiadau o nodweddion sy'n unigryw i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, lle mae'r rhain ar gael.

Nid yw pob adran yn cynnwys is-adrannau ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod yr agendâu ar gyfer prentisiaethau ar draws y pedair gwlad ar wahanol gamau o'u datblygiad. Wrth i'r agendâu hyn ddatblygu, byddwn yn diweddararu'r ddogfen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws y DU yn ddigonol.

2 Y cyd-destun

2.1 Beth yw prentisiaeth?

Prentisiaeth yw swydd gyda hyfforddiant sy'n cyrraedd safonau diwydiannol cydnabyddedig. Dylai ymwneud â mynediad neu gynnydd i alwedigaeth gydnabyddedig, dylai gynnwys rhaglen sylweddol o hyfforddiant a dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith a dylai brofi cymhwysedd galwedigaethol y prentis drwy asesiadau ffurfiannol a chrynodol, a allai fod yn barhaol neu'n asesiad o'r canlyniad terfynol [end point assessment (EPA)].

Nid yw pob hyfforddiant yn brentisiaeth. Mae profiad gwaith ar ei ben ei hun, hyfforddiant byrrach ar gyfer swydd, mynd ar gwrs, neu asesu ac ardystio cyflogai sy'n gweithio yn yr alwedigaeth yn barod, oll yn fathau positif o ddysgu ac achredu yn y gwaith ond nid ydynt yn brentisiaethau.

Dylai rhaglen brentisiaeth fod wedi'i llunio i gwrdd â holl anghenion rhywun sy'n newydd i'r alwedigaeth yn hytrach na dim ond anghenion cyflogaion presennol am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Lle mae cyflogaion presennol yng ngalwedigaeth y brentisiaeth yn ymuno â phrentisiaeth, dylent wneud hynny dim ond os ydynt angen hyfforddiant sylweddol i gyflawni cymhwysedd galwedigaethol. Yna gellir cydnabod eu dysgu blaenorol a byrhau hyd eu prentisiaeth i gyd-fynd â hynny.

Mae gwahanol bolisiau'n berthnasol ymhob un o'r gwledydd ar y lefelau prentisiaeth y gellir eu hariannu a sut mae'r prentisiaethau'n cael eu datblygu gyda gwahanol grwpiau o randdeiliaid.

Lloegr

Arweinir safonau prentisiaeth gan y cyflogwyr: y cyflogwyr sy'n gosod y safonau prentisiaeth; sy'n nodi'r anghenion sgiliau y mae gofyn i brentisiaid eu hateb; sy'n cyfrannu at gostau'r brentisiaeth, neu'n talu'r brentisiaeth o'r ardoll; ac sy'n gyfrifol am gyflogi a hyfforddi'r prentis. Ond mae anghenion y prentis yr un mor bwysig: i gyflawni cymhwysedd galwedigaeth sydd angen sgiliau, sy'n drosglwyddadwy ac sy'n anelu at wella eu potensial i ennill arian yn y tymor hir, mwy o ddiogelwch a'r gallu i ddatblygu yn y gweithle.

Yn Lloegr, nid yw safonau prentisiaeth wedi'u seilio ar gymwysterau bellach, a dim ond lleiafswm o safonau prentisiaeth yn gyffredinol sy'n cynnwys cymwysterau gorfodol (er bod mwyafrif mawr ar lefelau 6 a 7 yn cynnwys gradd orfodol a byddent yn parhau i wneud hynny). Felly, mae lefel y brentisiaeth yn cael ei feirniadu yn erbyn lefel yr alwedigaeth a fynegwyd yn y safon, ar sail un alwedigaeth i un safon brentisiaeth ar un lefel.

Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa gyda fframweithiau prentisiaeth⁵ a oedd wedi'u seilio ar gymwysterau ac felly ar lefelau cymwysterau. Yn y mwyafrif o achosion, roedd fframweithiau wedi'u seilio ar lefelau olynol ar gyfer yr un alwedigaeth (neu alwedigaeth debyg iawn) ac felly byddent yn cael eu cymryd un lefel ar y tro. Fodd bynnag, mae'r safonau wedi'u seilio ar hyfforddiant o'r cychwyn un gyda'r nod o gyrraedd lefel benodol.

Ffynhonnell y fframwaith o lefelau a ddefnyddir heddiw yw lefelau 1 i 5 y Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) a ddatblygwyd yn hwyr yn yr 1980au. Roedd y rhain wedi'u seilio'n wreiddiol ar lefel yr alwedigaeth. Mae newidiadau dros amser wedi gweld pwyslais

⁵ Mae'r canllawiau sy'n benodol berthnasol i Loegr yn canolbwyntio ar safonau prentisiaeth. Dylid nodi y bydd Cod Ansawdd y DU yn berthnasol i brentisiaethau yn Lloegr sy'n cynnwys addysg uwch ac yn cael eu darparu drwy Fframwaith Prentisiaeth. Lle mae angen arweiniad ychwanegol am brentisiaethau o'r fath anfonwch e-bost at enquiries@qaa.ac.uk os gwelwch yn dda.

fwy ar lefel y cymwysterau ar sail y lefel o anhawster neu sialens yn hytrach na lefel y cymhwysedd galwedigaethol yn y gweithle; ymgorfforwyd lefelau addysg uwch i mewn i'r fframwaith cyffredinol yn fuan yn y 2000au. Fodd bynnag, mae cyrff rheoleiddio dilynol wedi cynnal lefelau cymwysterau sy'n gydradd â lefelau NVQ ac felly â lefel y cymhwysedd galwedigaethol. Mae'r Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn berthnasol hefyd i fesurau o gymhwysedd galwedigaethol ar lefelau 4 i 8.

Mae'r Sefydliad Prentisiaethau wedi cynhyrchu tabl o ddisgrifwyr lefel⁶ sydd wedi'u llunio i'w gwneud hi'n haws i benderfynu union lefel pob safon brentisiaeth ac i'w halinio â'r fframwaith cyffredinol o lefelau cymwysterau.

Mae Cod Ansawdd y DU cyfan yn berthnasol i ddarpariaeth addysg uwch o fewn prentisiaethau, lle bo'n briodol. Bydd y safonau academaidd a'r fframweithiau a nodwyd yn y Cod Ansawdd hefyd yn berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys: y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU, Datganiadau Nodweddion Cymhwyster, y Datganiadau Meincnodi Pwnc a'r Fframweithiau Credydau yng ngwledydd y DU.

Cymru

Ym mis Mehefin 2017, cyflwynwyd cynigion yng Nghymru i ddiwygio'r system hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol, sy'n cynnwys cynigion bod darpariaeth addysg chweched dosbarth mewn ysgolion yn dod o fewn cwmnasiad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru. Disgwylir i'r ymgynghoriad technegol achosi oedi mewn datblygiadau hirdymor yng Nghymru.

Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) yn nodi'r gofynion sylfaenol sydd i gael eu cynnwys mewn fframwaith prentisiaeth cydnabyddedig i Gymru.

Rhaid i fframwaith prentisiaeth nodi ei lefel gan ddefnyddio'r disgrifwyr lefel cenedlaethol a ddisgrifir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Rhaid i fframwaith fod ar lefel 2 er mwyn bod yn gymwys fel Prentisiaeth Sylfaen, ar lefel 3 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth ac ar lefel rhwng 4 a 7 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth Uwch.

Dyfernir fframweithiau prentisiaeth hyd at, ac yn cynnwys, lefel 5 drwy broses dendro am contractau dysgu seiliedig ar waith. Mae'r broses hon yn gofyn bod cwmnïau'n pasio'r cam Holiadur Cyn-gymhwyso er mwyn dod yn gymwys i symud ymlaen i'r cam Gwahoddiad i Dendro. Mae contract dysgu seiliedig ar waith yn contract cyfreithiol rwymol y cytunir arno rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r darparwr dysgu seiliedig ar waith sydd dan contract. Dyfernir contractau'n flynyddol ar sail blwyddyn academaidd a chânt eu darparu'n amodol ar yr amodau a thelerau sydd wedi'u nodi yn y contract.

Bydd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Prentisiaethau Gradd ar lefel 6 yn cael eu dyrannu drwy CCAUC. Nid yw'r ariannu ar gyfer lefel 7 wedi'i gynllunio i Gymru ar hyn o bryd. Bydd ariannu ar gyfer yr holl brentisiaethau eraill hyd at, ac yn cynnwys, prentisiaethau ar lefel 5 yn parhau i gael ei ddyrannu drwy'r rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith presennol.

Mae dysgu drwy brentisiaeth yng Nghymru wedi'i ddiffinio drwy fframweithiau sy'n nodi'r cymwysterau a'r hyfforddiant y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn ennill tystysgrif Prentisiaeth. Darperir Prentisiaethau Gradd yng Nghymru gan sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. Darperir yr holl brentisiaethau eraill yng Nghymru drwy'r rhwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau

⁶ Gwelwch www.instituteforapprenticeships.org/media/1538/occupational-levels-guidance.pdf

Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hymrwymyo i gefnogi datblygiad Prentisiaethau Uwch mewn ardaloedd o dwf economaidd a phrinder sgiliau.

Prentisiaethau Gradd yw rhaglenni dysgu seiliedig ar waith sy'n rhoi cyfleoedd i unigolion sy'n gweithio yng Nghymru ddatblygu gwybodaeth am y diwydiant a chymhwysedd galwedigaethol sy'n berthnasol wrth wneud swydd gyda chyflog, gan gael profiad o wneud swydd benodol/swyddi penodol.⁷ Bydd y gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaethau gradd i'w cael mewn fframweithiau prentisiaeth, a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru, a byddent yn cynnwys cymhwyster gradd lefel 6 a gydnabyddir gan gyflogwyr ar draws diwydiant neu ystod o ddiwydiannau. Bydd gofyn i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC sicrhau bod Prentisiaethau Gradd yn cwrdd â holl ofynion y fframwaith prentisiaeth perthnasol. Anogir sefydliadau a gyllidir gan CCAUC hefyd i gynnig darpariaeth drwy ddarparwyr eraill, lle mae'n ateb anghenion y cyflogwr a'r prentis orau. Mae croeso i ddulliau darparu hyblyg ac fyddent wedi'u cyfyngi i'r darparwr prentisiaeth gradd arweiniol yn unig. Er y bydd y dull o gyllido Prentisiaethau Gradd yn wahanol i brentisiaethau eraill yng Nghymru, byddent yn rhan o'r system ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru.

Nid oes cyfyngiadau ar y math a/neu'r maint o gyflogwr sy'n cael recriwtio prentisiaid, ar yr amod bod y brentisiaeth o fewn un o'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i'r cyflogwr a'r darparwr fod yn glir ynghylch y ffaith y bydd cyfle i'r prentis unigol, yn y gweithle, gyflawni gofynion y fframwaith prentisiaeth o ran cymhwysedd. Bydd angen i ddarparwyr fod yn glir a gonest gyda'r cyflogwr a'r dysgwr am yr ymrwymadau y maent yn cofrestru ar eu cyfer, gan gynnwys ymrwymiad i ryddhau'r cyflogai ar gyfer unrhyw hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

Bydd prentisiaeth gradd lawn yn para o leiaf tair blynedd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mwy o amser arnynt i sicrhau bod gan y prentis ddigon o amser i ateb gofynion y fframwaith prentisiaeth tra byddent yn gweithio.

Pan fo'n berthnasol, disgwylir i'r darparwyr gydnabod dysgu blaenorol, yn enwedig lle mae unigolion wedi gwneud prentisiaethau ar lefelau is. Lle mae dysgu blaenorol unigolion wedi'i gydnabod, disgwylir i Brentisiaethau Gradd gael eu cyflawni mewn llai o amser.

⁷ [Datganiad CCAUC: Prentisiaethau Gradd yng Nghymru \(Mawrth 2018\)](#).

2.2 Ynghylch prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch y DU

Mae rhaglenni dysgu ar lefel addysg uwch sydd wedi'u hintegreiddio yn y gwaith wedi bod yn nodwedd hirsefydlog o addysg uwch y DU. Mae esiamplau'n cynnwys graddau meddygol gydag atodiadau clinigol, graddau mewn addysgu, nyrsio, a gwaith cymdeithasol, sydd oll yn gofyn am gyfnodau amrywiol o ymarfer, graddau dysgu seiliedig ar waith wedi'u llunio'n benodol i gydnabod dysgu yn y gwaith, a rhaglenni addysg uwch i ddatblygu'r gweithlu sydd wedi'u llunio i ateb anghenion cyflogwyr. Mae modelau newydd o brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch yn cydnabod ailadroddiad diweddaraf y ddarpariaeth addysg uwch sydd wedi'i hintegreiddio yn y gwaith.

Mae modelau o brentisiaeth ar draws pedair gwlad y DU ar wahanol gamau o'u datblygiad a gweithrediad eu polisïau ac mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fanylach isod.

Mae'r holl brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch (ar lefel 4 neu'n uwch yn y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* ac ar lefel 7 neu'n uwch yn yr Alban) wedi'u cynnwys yn nisgwyliadau'r Cod Ansawdd. Mae angen i ddarparwyr hefyd gydymffurfio gyda fframweithiau rheoliadol ehangach sy'n berthnasol i brentisiaethau, yn ogystal â'r rheiny sy'n ymwneud â chyllido a chymwysterau proffesiynol.

Lloegr

Un o nodweddion allweddol prentisiaethau yn Lloegr sy'n cynnwys darpariaeth hyfforddiant a dysgu ar lefel addysg uwch, yn debyg i wledydd eraill y DU, yw bod prentisiaeth yn swydd a'r cyflogwr, nid y prentis unigol, yw'r cwsmer a phrynwr y brentisiaeth. Mae cyflogwyr, gan gychwyn gyda chyflogwyr sy'n talu'r ardoll, yn prynu darpariaeth hyfforddiant prentisiaeth a gwasanaethau corff asesu canlyniadau terfynol i gynnal asesiadau o ganlyniadau terfynol prentisiaethau [End Point Assessment (EPA)] (drwy'r Gwasanaeth Prentisiaethau).

Ni all unigolion gael eu cyflogi fel prentisiaid heblaw eu bod yn gweithio tuag at gyflawni'r Safon Brentisiaeth gymeradwy,⁸ sy'n diffinio'r alwedigaeth ac yn nodi'r dyletswyddau, yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol i gyflawni rôl y swydd a nodwyd. Mae pob Safon Brentisiaeth yn cael ei llunio gan gonsortiw m o gyflogwyr sy'n bodloni gofynion y Sefydliad Prentisiaethau - gelwir y rhain yn 'Arloeswyr' - sy'n cyflogi pobl ac sy'n gweithredu yn y sector diwydiannol perthnasol. Bydd Grwpiau o 'Arloeswyr' ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr addysg uwch. Mae 'Arloeswyr' hefyd yn dyfeisio'r ffordd y mae'r dyletswyddau gofynnol a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad gofynnol yn cael eu hasesu - mae hyn wedi'i amlinellu yn y Cynllun Asesu Canlyniadau Terfynol (cynllun EPA).

Dim ond un Safon Brentisiaeth y gellir ei ddatblygu ar gyfer galwedigaeth. Yn 2017/18, roedd oddeutu 40 y cant o'r safonau prentisiaeth a gymeradwywyd i'w darparu ar lefel addysg uwch.

Cynhelir asesiadau o ddyletswyddau a gwybodaeth/sgiliau/ymddygiad drwy ddull asesu EPA cyfannol. Ar gyfer Prentisiaethau Gradd, os yw'r radd yn orfodol, gallai fod naill ai'n Brentisiaeth Gradd 'integredig' neu'n Brentisiaeth Gradd 'anintegredig'. Mae manteision ac anfanteision i bob llwybr darparu ar gyfer y cyflogwyr, y prentisiaid a'r sefydliadau addysg uwch. Mae'r Canllawiau i 'Arloeswyr' gan y Sefydliad Prentisiaethau⁹ yn darparu diffiniad o'r ddau fath ac o'r meini prawf a'r broses ar gyfer mandadu cymwysterau. Mae canlyniad yr asesiad EPA, ar gyfer graddau

⁸ Gall prentisiaid hefyd fod yn gweithio i gyflawni Fframwaith Prentisiaeth cymeradwy; bydd Fframweithiau Prentisiaeth yn cael eu dileu wrth iddynt gael eu disodli gan Safonau Prentisiaeth.

⁹ Gwelwch www.instituteforapprenticeships.org/developing-new-apprenticeships/

'integredig' neu 'anintegredig', yn penderfynu a yw'r prentis yn gymwys i wneud yr alwedigaeth a nodwyd.

Y chwaraewyr allweddol

Mae Datganiad Atebolrwydd yr Adran Addysg yn Lloegr yn esbonio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r chwaraewyr allweddol o fewn y prosesau o gymeradwyo, darparu a rheoleiddio addysg uwch mewn prentisiaethau (i gael eu hadolygu yn hydref 2018).¹⁰

Y cyd-destun rheoleiddiol

I ddarparu prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch, mae'n rhaid i'r darparwyr:

- fod yn gofrestredig gyda'r Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) ar y Gofrestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaeth [Register of Apprenticeship Training Providers] (Cofrestr RoATP)
- lle maent yn darparu asesiadau EPA neu'n darparu prentisiaethau gradd integredig, rhaid iddynt fod yn gofrestredig ar y Gofrestr o Gyrff Asesu Canlyniadau Terfynol [Register of End-Point Assessment Organisations] (Cofrestr RoEPAO) ar gyfer pob safon
- lle maent yn darparu gwasanaethau i gyflogwyr nad ydynt yn talu'r ardoll, rhaid iddynt fod wedi sicrhau arian gan yr ESFA i wneud hynny, neu gael eu his-gontractio (mae rheolau'r ESFA yn berthnasol) gan ddarparwr hyfforddiant sydd wedi sicrhau arian gan yr ESFA i ddarparu darpariaeth i gyflogwyr nad ydynt yn talu'r ardoll; gellir defnyddio'r system drosglwyddo ardoll hefyd¹¹
- cydymffurfio â rheolau cyllido'r ESFA i ddarparwyr hyfforddiant, gofynion y Gwasanaeth Prentisiaethau a'r cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr ESFA, ac unrhyw gontractau rhwng yr ESFA a'r darparwr, a rhwng y cyflogwr a'r darparwr, a rhwng y cyflogwr, y darparwr a'r corff EPA (lle bo'n briodol).

Mae pob darparwr addysg uwch yn Lloegr yn atebol i'r amodau cofrestru, sy'n cynnwys disgwyliadau'r Cod Ansawdd.

Pan fydd y darparwr addysg uwch yn brif ddarparwr, bydd ganddynt hwy'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth hyfforddiant gyfan y brentisiaeth, gan gynnwys am unrhyw is-gontractwyr. Lle mae'r darparwr addysg uwch yn ddarparwr wedi'i is-gontractio, byddent yn gyfrifol am ddarparu elfen addysg uwch benodol.

Mae pob darparwr prentisiaeth addysg uwch yn Lloegr yn atebol hefyd i'r gofynion cychwynnol a pharhaus o ran sicrhau ansawdd ar gyfer cofrestru ar y gofrestr RoATP.¹² Mae'r Swyddfa Myfyrwyr/QAA yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd parhaus i'r ESFA ar ansawdd y darparwyr sy'n cynnig hyfforddiant prentisiaeth ar lefel 6 neu'n uwch, ac am weithio gydag Ofsted i ffurfio barn ar gyfer darparwyr sy'n cynnig hyfforddiant prentisiaeth ar lefel 4/5 sy'n cynnwys cymhwyster addysg uwch. Mae Ofsted yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y darparwyr yn barhaus sy'n cynnig unrhyw hyfforddiant prentisiaeth arall ar lefel 4/5.

Yn Lloegr, mae gan brentisiaethau ddiogelwch cyfreithiol sy'n gyfatebol â diogelwch graddau, ac mae'n rhaid seilio'r dulliau o farchnata, datblygu, darparu, a rhoi gwybodaeth o fewn y cyd-destun yma.

¹⁰ Gwelwch www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-accountability-statement

¹¹ Gwelwch www.gov.uk/guidance/transferring-apprenticeship-service-funds

¹² Gwelwch www.gov.uk/guidance/register-of-apprenticeship-training-providers

Mae rheolau a gofynion cofrestru penodol yn berthnasol i gyflogwyr, gan gynnwys i ddarparwyr addysg uwch sy'n ceisio darparu prentisiaethau i'w staff eu hunain yn unig.

Gofynion ychwanegol gan gyrff cyllido

Mae rheolau cyllido'r ESFA yn llywodraethu'r defnydd a wneir gan gyflogwyr sy'n talu'r ardoll o'r taliadau ardoll ac o'r taliadau atodol gan y Llywodraeth, ac maent yn ymwneud â throsglwyddo unrhyw daliadau ardoll heb eu gwario i gyflogwyr nad ydynt yn talu'r ardoll, ymhlith pethau eraill. Gall cyflogwyr sy'n talu'r ardoll drosglwyddo hyd at 10% o'u hardoll ar gyfer eu prentisiaid i sefydliadau eraill. Mae angen i ddarparwyr addysg uwch fod yn hollol ymwybodol o'r rheolau cyllido os ydynt yn tynnu arian i hyfforddi a, lle bo'n briodol, i asesu prentisiaid. Mae darparwyr addysg uwch sy'n cynnig prentisiaethau'n atebol i broses archwilio'r ESFA.

Yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban wedi'i hymrwymo i ymestyn cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith drwy Brentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau Modern a Phrentisiaethau â Gradd ac maent wedi'u hymrwymo i gynyddu nifer y Prentisiaid i 30,000 erbyn 2020.

Mae Prentisiaethau â Gradd yn cael eu datblygu gan Skills Development Scotland drwy ymgynghoriad gyda chyflogwyr, prifysgolion, cyrff proffesiynol ac awdurdodau rheoleiddio cymwysterau ar ffurf grwpiau o arbenigwyr technegol. Mae'r Grŵp Arbenigwyr Technegol yn gweithredu fel grŵp cynghori ar ran sector diwydiannol gyda'r rhagosodiad bod y diwydiant yn darparu'r arbenigedd i bennu'r sgiliau a'r wybodaeth y maent eu hangen ar gyfer cael gweithlu o raddedigion cymwys. Mae'r cynrychiolwyr academiaidd yn datblygu'r rhaglen a'i safonau ansawdd ac yn sicrhau aliniad gyda'r achrediad proffesiynol sydd ei angen i ddarparu'r dyfarniad.

Ar hyn o bryd, mae Prentisiaethau â Gradd ar gael o lefel 8 SCQF (diploma addysg uwch) hyd at lefel 11 SCQF (lefel gradd meistr). Mae'r cymhwyster y mae prentis yn ei dderbyn ar y diwedd yr un fath â'r un y bydden nhw'n ei gael wrth gwblhau rhaglen ddysgu gonfensiynol gyda sefydliad addysg bellach neu addysg uwch.

Rhaid i bob prentis ar Brentisiaethau â Gradd fod yn gyflogedig ac yn byw yn yr Alban ar ddechrau eu prentisiaeth.

Nid oes cyfyngiad oedran hŷn ond mae'n rhaid i'r cyflogeion fod yn 16 oed o leiaf (neu'n 18 yn dibynnu ar unrhyw ofynion iechyd a diogelwch yn y gweithle). Mae Prentisiaethau â Gradd ar gael i gefnogi cyflogeion presennol i gael cymhwyster seiliedig ar waith perthnasol, neu i benodi a hyfforddi pobl sy'n cychwyn o'r newydd yn y cwmni.

Gall unrhyw gyflogwr yn yr Alban gael gafael ar gefnogaeth gyda'r Prentisiaethau â Gradd.

Mae gan Skills Development Scotland (SDS) gyfrifoldeb i sicrhau ansawdd pob un o'r rhaglenni prentisiaeth yn yr Alban; mae hyn yn golygu y byddent yn gweithio gyda QAA a chyrrff rheoleiddio eraill i alinio prosesau rheoli ansawdd SDS gyda'r strwythurau presennol lle bo modd er mwyn sicrhau dull esmwyth o weithio ac i leihau dyblygiad ymdrech.

Y chwaraewyr allweddol

Mae **Skills Development Scotland (SDS)** yn arwain y gwaith o ddatblygu Prentisiaethau â Gradd ac yn gweinyddu'r gefnogaeth ariannol i bartneriaid dysgu ar ran Llywodraeth yr Alban.

Bydd yr **Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)** yn sicrhau ansawdd Prentisiaethau Uwch ar lefelau 8 i 11 SCQF yn rhan o'r model gweithredu adolygedig ar gyfer asesu ansawdd yn yr Alban.

Mae gan **Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)** [Scottish Qualifications Authority] ystod o swyddogaethau cyrff dyfarnu sy'n cynnwys datblygu, dilysu ac adolygu cymwysterau, dyfarnu tystysgrifau, a sicrhau ansawdd sefydliadau addysgol sy'n cynnig cymwysterau SQA. Mae'r achrediad gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban yn awdurdodi'r holl gymwysterau galwedigaethol (heblaw graddau) a ddarperir yn yr Alban.

Prifysgolion yr Alban yw corff cynrychioli'r 19 sefydliad addysg uwch yn yr Alban.

Gofynion cyllido ychwanegol

Hyd gwanwyn 2018, sicrhaodd SDS Brentisiaethau â Gradd wedi'u hariannu drwy ymarfer caffael.

I garfanau sy'n cychwyn hyd at hydref 2018, bydd y costau dysgu prentisiaid wedi'u hariannu gan SDS ar gyfer hyd cyfan y cwrs.

Cymru

Ers 2016-17, mae sefydliadau a gyllidir gan CCAUC wedi derbyn cefnogaeth i ddatblygu cymwysterau lefel gradd a allai gael eu cynnwys ar fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru.

Mae Cynllun polisi sgiliau prentisiaethau Llywodraeth Cymru, *Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru*¹³ yn nodi ei hymrwymiad i ddatblygu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru. Mae'r Polisi Prentisiaethau a'r cynllun gweithredu pum mlynedd yn ymrwmo i ddarparu 100,000 o Brentisiaethau a ddatblygwyd drwy rwydwaith o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol dan arweiniad cyflogwyr i ymdrin â phrinder sgiliau. Mae gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol y dasg o ddadansoddi'r heriau economaidd a'r manau tyfiant tebygol i ganfod y sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu. Maent yn cynhyrchu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol i ddadansoddi a dylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau a chefnogi tyfiant ymhob un o'r rhanbarthau. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer dylanwadu ar flaenoriaethu a gweithredu cyllido sgiliau.

Y meysydd blaenoriaeth cychwynol sydd wedi'u pennu ar gyfer Prentisiaethau Gradd (lefel 6) yw TGCh/cyfrifiadureg, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ddarpariaeth Prentisiaethau Gradd gychwyn yn y meysydd blaenoriaeth hyn yn ystod 2018-19.

Mae Fframwaith Digidol wedi cael ei gyflwyno a disgwylir i'r Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch gael ei gyflwyno yn hwyrach yn 2018.

Bydd gofyn i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yng Nghymru sydd eisiau cael eu hariannu ar gyfer darparu Prentisiaethau Gradd gyflwyno cynigion i CCAUC. Bydd y cynigion yn gofyn i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC esbonio sut y byddent yn cyflawni blaenoriaethau CCAUC ar gyfer Prentisiaethau Gradd.

Bydd CCAUC a Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod trefniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu.

¹³ [Llywodraeth Cymru: Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru \(2017\)](#).

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i bennu ac ateb anghenion sgiliau Cymru. Datblygwyd cynrychiolaeth o'r sector addysg uwch, o fewn dull integredig CCAUC o gynllunio ar lefel ranbarthol, i gynnwys grwpiau rhanbarthol.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

- **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:** Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr a Grŵp Llandrillo Menai
- **Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru:** Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Choleg Penybont
- **Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru:** Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Castell-Nedd Port Talbot, a Choleg Sir Benfro.

Cynrychiolir y Brifysgol Agored yng Nghymru ar bob partneriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ffurfio **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe**.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, ymrwymodd Strategaeth Prentisiaethau 'Securing our Success' 2014 i sicrhau bod prentisiaethau ar gael rhwng lefel 3 a lefel 8 (sy'n gyfatebol â PhD). Y term a roddwyd i'r estyniad hwn o'r cynnig prentisiaethau yw 'Prentisiaethau Lefel Uwch', sef disgrifydd o brentisiaethau gyda chymhwyster wedi'i dargedu rhwng lefel 4 (sy'n gyfatebol â Thystysgrif Addysg Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch) a lefel 8 (sy'n gyfatebol â PhD).

O dan y system ddiwygiedig o brentisiaethau, mae gan gyflogwyr y brif rôl mewn darparu prentisiaethau. Mae Fforwm Cynghori ar Strategaeth dros dro, sydd wedi'i seilio ar bartneriaeth o gyflogwyr, y llywodraeth, undebau llafur a darparwyr hyfforddiant, wedi'i sefydlu i gynghori'r llywodraeth ar ddarparu Prentisiaethau.

Mae cyfres o Bartneriaethau Sector wedi'u sefydlu hefyd i gynghori'r llywodraeth ar ddarparu Prentisiaethau. Y bwriad yw y bydd Partneriaethau Sector yn cefnogi datblygiad darpariaeth Prentisiaethau Lefel Uwch, gyda chefnogaeth ysgrifenyddiaeth gan Adran yr Economi.

Yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus, daeth darpariaeth Prentisiaethau Lefel Uwch yng Ngogledd Iwerddon yn rhan o'r ddarpariaeth brif ffrwd mewn colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch. Nid oes targed ar gyfer nifer y prentisiaid a fydd yn cychwyn yng Ngogledd Iwerddon, yn hytrach mae'r ffocws ar ddarparu prentisiaeth o safon uchel.

Y chwaraewyr allweddol

Mae gan **Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon)** atebolrwydd cyffredinol am y system o brentisiaethau, gan gynnwys polisi a llywodraethu. Ar hyn o bryd, mae'r Adran yn perfformio swyddogaeth sicrhau ansawdd hefyd ar gyfer Prentisiaethau Lefel Uwch.

Mae'r **colegau addysg bellach** yng Ngogledd Iwerddon yn gyfrifol am ddarparu'r gydran o'r prentisiaethau lefelau 4 a 5 sy'n ymwneud â hyfforddiant i ffrwd o'r gwaith.

Mae'r **sefydliadau addysg uwch** yng Ngogledd Iwerddon yn gyfrifol am ddarparu'r gydran o'r prentisiaethau lefelau 6 i 8 sy'n ymwneud â hyfforddiant i ffrwd o'r gwaith.

Y cyd-destun rheoleiddiol

Yng Ngogledd Iwerddon, cydnabyddir prentisiaeth drwy gyfres o gydrannau craidd.

- Bydd prentisiaeth ar gyfer cyflogai newydd, neu yn achos cyflogai sydd yno'n barod, rôl swydd newydd sy'n gofyn llawer iawn o ddatblygiad o ran sgiliau a dysgu.
- Bydd prentisiaeth ar gael mewn galwedigaethau technegol a phroffesiynol yn cychwyn o lefel 3 hyd at lefel 8.
- Bydd hi'n cymryd o leiaf ddwy flynedd i gwblhau prentisiaeth.
- Bydd prentisiaethau'n galluogi symudedd o fewn sector ac ar draws yr economi ehangach drwy gynnwys ehangder hyfforddiant sydd y tu hwnt i anghenion penodol y swydd drwy hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.
- Bydd prentisiaeth wedi'i lunio i hwyluso cynnydd cyfranogwyr i hyfforddiant proffesiynol neu dechnegol uwch neu i lwybr addysg academaidd uwch.

3 Sicrhau ansawdd addysg uwch mewn prentisiaethau

3.1 Cyfrifoldebau darparwyr addysg uwch, cyflogwyr, prentisiaid ac eraill

Gosod safonau academiaidd a chynllunio prentisiaethau

Mae gan ddarparwyr addysg uwch sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu prentisiaethau gyfrifoldeb deuol wrth sicrhau ansawdd: mae darparwyr hyfforddiant prentisiaeth yn gyfrifol am ansawdd yr hyfforddiant prentisiaeth y maent yn ei ddarparu, ac mae darparwyr addysg uwch sydd â phwerau cyfreithiol i ddyfarnu graddau'r DU yn gyfrifol am ansawdd a safonau academiaidd y ddarpariaeth addysg uwch, a'r cymwysterau y maent yn eu dyfarnu. Mae hyn yn berthnasol lle bynnag y darperir y rhaglenni sy'n arwain at y dyfarniadau hynny, pwy bynnag sy'n ymwneud â'r darparu, neu p'un a ydynt yn cael eu darparu'n unol â chymwysterau proffesiynol neu gymwysterau eraill. O ganlyniad, gan y cyrff dyfarnu graddau yn unig, megis prifysgolion, y mae'r cyfrifoldeb am ansawdd a safonau academiaidd unrhyw ddarpariaeth addysg uwch ac unrhyw gymwysterau y maent yn eu cynnig yn rhan o brentisiaethau.

Wrth gynllunio, datblygu a chymeradwyo prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod y ddarpariaeth addysg uwch yn ateb y disgwyliadau sydd yn y Cod Ansawdd, fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid iddynt, er enghraifft, osod pob rhaglen addysg uwch ar lefel briodol y fframwaith cymwysterau perthnasol, a sicrhau bod y canlyniadau dysgu'n alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith hwnnw; mae'n rhaid iddynt weithredu prosesau cymeradwyo ffurfiol ac effeithiol; ac mae'n rhaid iddynt sicrhau mai dim ond lle mae safonau wedi'u cyrraedd a'r canlyniadau dysgu perthnasol wedi'u cyflawni y ceir dyfarnu cymwysterau.

Er na ellir dirprwyo'r cyfrifoldeb am safonau academiaidd o dan unrhyw amgylchiadau, mae'n gyffredin iawn i gyrff dyfarnu graddau a darparwyr addysg uwch eraill weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys colegau a chyflogwyr, wrth gynllunio a darparu rhaglenni addysg uwch. Yn yr un modd, mae'n gyffredin i gyrff dyfarnu graddau gynnig rhaglenni sy'n bodloni gofynion corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio (corff PSRB), neu raglenni a ddarperir mewn cydweithrediad â chymwysterau proffesiynol. Dan yr amgylchiadau yma, yn debyg i'r holl raglenni addysg uwch, bydd y broses o gynllunio'r rhaglen, ac, mewn rhai achosion, brosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu'r rhaglen, yn cymryd i ystyriaeth gyfraniad gan amrediad o wahanol ffynonellau gan gynnwys gweithwyr, prentisiaid, cyflogwyr a chyrrff PSRB. Mae'r Cod Ansawdd yn annog pobl i ddefnyddio pwyntiau cyfeirio allanol ac arbenigedd allanol ac mae'n argymhell bod darparwyr yn cefnogi eu staff a chyfranogwyr eraill i gyfrannu'n effeithiol at gynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

Datblygir modelau prentisiaeth mewn ymgynghoriad â'r cyflogwyr a'r cyrff sector, neu arweinir y datblygiad ganddynt, a byddent yn adlewyrchu anghenion y cyflogwr yn ogystal ag anghenion sgiliau ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Felly, mae angen i ddarparwyr addysg uwch fod yn ddigon hyblyg i sicrhau eu bod yn ymateb i flaenoriaethau amrywiol ac allddodol y cyflogwyr a'r sectorau economaidd wrth gynllunio a datblygu rhaglenni dysgu, gan hefyd sicrhau eu bod yn gallu bodloni'r gofynion o ran sicrhau safonau academiaidd. Mae annibyniaeth darparwyr addysg uwch a'r ymreolaeth sydd ganddynt i benderfynu pa raglenni i'w cynnig, o fewn y fframwaith ehangach sy'n rheoli ansawdd a safonau academiaidd, yn golygu y gallent sicrhau nad yw'r ansawdd a'r safonau'n cael eu cyfaddawdu.

Yn y cyd-destun yma, bydd y nodweddion hynny sydd gan brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch - y nodweddion a arweinir gan gyflogwyr hynny yw, yn golygu bod rhaid i'r darparwyr addysg uwch ateb y gofynion trosfwaol i sicrhau ansawdd a safonau academiaidd, ac ateb yr angen am raglen sydd ag elfen gryfach o integreiddio gwaith ochr yn ochr â chyflogwyr, yn ogystal â gofynion cyfreithiol y polisïau cenedlaethol ar gyfer prentisiaethau a safonau achredu

cyrff PSRB. Gallai hyn gynnwys newid diwylliannol i rai darparwyr addysg uwch, oherwydd y ffaith ei fod yn gosod cyflogwyr, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gynrychiolaeth ar Grwpiau Arbenigwyr Technegol, ynghyd â chyrff sector, yn brif yrwyr yn y broses ddatblygu ar gyfer prentisiaethau sy'n cynnwys cymwysterau addysg uwch. Ni fydd agwedd draddodiadol yn ddigon, hynny yw lle mae darparwr addysg uwch yn gwahodd cyflogwr i ardystio rhaglen ar ôl iddi gael ei chynllunio.

Lloegr

Yn y system newydd yn Lloegr, fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, mae dogfennau safonau prentisiaeth yn nodi'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad sy'n ofynnol i ddangos cymhwysedd galwedigaethol llawn yn rôl berthnasol y swydd. Datblygir y safonau hyn gan Grwpiau o 'Arloeswyr' sy'n cynnwys cyflogwyr mewn sector diwydiannol penodol.

Mae'r system 'Arloeswyr' wedi'i llunio'n bennaf i roi anghenion cyflogwyr wrth galon y broses o ddatblygu'r brentisiaeth. Fodd bynnag, dylai Grwpiau o 'Arloeswyr' ar gyfer Prentisiaethau Gradd hefyd gynnwys darparwyr addysg uwch fel aelodau llawn i sicrhau bod y broses o ddatblygu Safonau Prentisiaeth wedi'i hysbysu'n briodol gan, ac yn adolygu'r safonau gofynnol ar gyfer dyfarnu gradd y DU.¹⁴ Bydd darparwyr addysg uwch a chyrff PSRB (lle bo'n briodol) yn cydweithio hefyd i gynllunio'r Safon Brentisiaeth a'r cynllun EPA ar gyfer Prentisiaethau Gradd.

Mae grwpiau 'Arloeswyr' eraill sy'n datblygu prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch yn cysylltu fel arfer gyda grwpiau o ddarparwyr posibl, ac yn cyfeirio atynt, yn rhan o'r broses o ddyfeisio Safonau Prentisiaeth a chynlluniau EPA cysylltiedig.

Mae'n un o amodau cyllido'r ESFA bod yn rhaid i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod y rhaglenni y maent yn eu cynnig wedi'u llunio i alluogi i brentis ddatblygu'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad a nodir yn y Safon Brentisiaeth berthnasol. Wrth gynllunio a datblygu prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod eu rhaglenni'n cynnwys paratoad priodol ar gyfer cyflawni'r cyfan neu ran o'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad sydd wedi'u nodi yn y Safon Brentisiaeth, a'u bod yn bodloni'r gofynion cenedlaethol o ran ansawdd a safonau academaidd cymwysterau addysg uwch.

Mae darparwyr addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau'n cadw'r cyfrifoldeb llawn am y cymwysterau a ddyfernir yn eu henw, gan gynnwys am brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch. Fodd bynnag, fel y bo'n ofynnol ar gyfer aelodaeth ar y gofrestr RoATP, dylai darparwyr addysg uwch hefyd allu dangos bod ganddynt brosesau y sicrheir eu hansawdd ar gyfer sicrhau bod rhaglenni addysg uwch yn 'addas i'w pwrpas' wrth ddarparu prentisiaethau penodedig sy'n bodloni'r Safon Brentisiaeth genedlaethol gymeradwy. P'un a yw rhaglen addysg uwch wedi'i llunio'n benodol i ddarparu prentisiaeth, neu mae rhaglenni sy'n bodoli'n barod wedi'u haddasu'n benodol i'r pwrpas yma, dylai prosesau dilysu a chymeradwyo sicrhau bod y rhaglenni, gan gynnwys y ddarpariaeth hyfforddiant, yn baratoad priodol i alluogi i brentisiaid gyrraedd y Safon Brentisiaeth genedlaethol gymeradwy o ran cymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Brentisiaethau Gradd 'integredig' lle cynhelir yr asesiad EPA yn rhan o'r radd. Lle mae prentisiaethau'n cynnwys cydnabyddiaeth gan gorff PSRB fel canlyniad i gwblhad llwyddiannus, dylai cyrff PSRB fel arfer fod yn cymryd rhan yn briodol mewn prosesau dilysu a chymeradwyo.

¹⁴ Gall 'Arloeswyr' sy'n ceisio cymorth gan brifysgolion/sefydliadau addysg uwch anfon e-bost at Gyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Prifysgolion (UVAC) yn uvac@bolton.ac.uk neu at QAA yn enquiries@qaa.ac.uk.

Mae ystod o berthnasau cytundebol rhwng cyflogwyr, darparwyr ac is-gontractwyr sydd hefyd yn gallu effeithio ar y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau ansawdd y safonau. Mewn rhai achosion, efallai nad y darparwr addysg uwch yw 'prif ddarparwr' prentisiaeth sy'n cynnwys addysg uwch. Er enghraifft, efallai y bydd cyflogwr mwy wedi'i gynnwys ar y gofrestr RoATP, fel darparwr sy'n gyflogwr, ac eisiau bod yn brif ddarparwr i brentisiaeth gradd er nad oes ganddynt bwerau dyfarnu graddau. I'r pwrpas yma, byddai angen i'r cyflogwr gael cytundeb is-gontractio ar waith gyda darparwr addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau. Byddai'r cyfrifoldeb am safon y dyfarniad gradd yn aros gyda'r darparwr addysg uwch ond byddai'r cyfrifoldeb am y brentisiaeth gradd wedi'i rannu rhwng y darparwr sy'n gyflogwr, a'r darparwr addysg uwch fel is-gontractwr. Dylai darparwyr addysg uwch sicrhau bod y ddarpariaeth am ystod lawn o gydberthnasau rhwng cyflogwyr, darparwyr ac is-gontractwyr wedi'i hadeiladu i mewn i drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch.

Mae'r holl brentisiaethau angen cwblhau asesiadau EPA yn llwyddiannus fel ffordd o sefydlu bod prentisiaid wedi dangos y safon ofynnol o gymhwysedd galwedigaethol yn y rôl swydd berthnasol. Bydd y cynllun EPA cymeradwy'n penderfynu sut mae gofyn i gymhwysedd galwedigaethol gael ei asesu ar gyfer bob prentisiaeth a pha fath o gorff fydd yn cynnal yr asesiad EPA. I Brentisiaethau Gradd, bydd yr asesiad EPA naill ai'n rhan o'r rhaglen gradd ar gyfer Prentisiaethau Gradd 'integredig' neu'n allanol i'r rhaglen ar gyfer Prentisiaethau Gradd 'anintegredig'. Yn y naill achos neu'r llall, dim ond cyrff sydd ar y Gofrestr o Gyrff Asesu Canlyniadau Terfynol (RoEPAO) sy'n gallu cynnal asesiadau EPA ar gyfer prentisiaethau arbennig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig Prentisiaethau Gradd 'integredig' gael eu rhestru ar y gofrestr RoEPAO er mwyn gallu cynnal asesiadau EPA ar gyfer eu dyfarniadau graddau eu hunain. Ar gyfer Prentisiaethau Gradd 'anintegredig' a'r holl brentisiaethau eraill sy'n cynnwys addysg uwch, mae'n rhaid i'r asesiadau EPA gael eu gwneud gan gorff sydd ar wahân i'r darparwr addysg uwch a ddarparodd y rhaglen brentisiaeth. Cyfrifoldeb y Corff Asesu Canlyniadau Terfynol perthnasol,¹⁵ sy'n cynnal asesiadau EPA, yw hi i hawlio Tystysgrifau Cwblhau Prentisiaeth gan yr ESFA.

Wrth edrych ar brosesau cynllunio, datblygu a chymeradwyo prentisiaethau mae nifer o feysydd werth eu hystyried ymhellach.

- Mae prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch wedi'u llunio i ddarparu cyfleoedd priodol i brentisiaid gyflawni'r holl ddyletswyddau a'r holl wybodaeth/sgiliau/ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol fel y mae wedi'i nodi yn y Safon Brentisiaeth berthnasol ac yng ngofynion y cynllun EPA cysylltiedig. Mae eglurder y berthynas rhwng y dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad sydd wedi'i nodi yn y Safon Brentisiaeth ac yng nghanlyniadau dysgu'r rhaglen a'r modiwl yn ystyriaeth allweddol i ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch. Ar raglenni addysg uwch sydd wedi'u llunio'n benodol i ddarparu Safon Brentisiaeth benodol, gall y dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad a nodwyd, sy'n ganlyniadau'r brentisiaeth, fod yn ganlyniadau dysgu'r rhaglen hefyd. Bydd y dull yma'n arbennig, ond nid yn eithriadol, berthnasol i gynllun y Prentisiaethau Gradd 'integredig'. Er bod canlyniadau 'gwybodaeth' a 'sgiliau' yn gyffredin i raglenni addysg uwch, dylid rhoi sylw arbennig hefyd i'r ffordd mae'r 'ymddygiad' sy'n ofynnol fel canlyniad prentisiaeth yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau dysgu'r rhaglen a'r modiwl. Dylai cynllun canlyniadau'r rhaglenni prentisiaeth sy'n cynnwys addysg uwch hefyd ddangos eu bod yn alinio â'r FHEQ ac yn cyfeirio at ddisgrifwyr lefel megis Disgrifwyr Lefel Credyd SEEC (2016),¹⁶ sydd wedi'u llunio'n benodol i gynnwys safleoedd dysgu yn y gwaith.

¹⁵ Dim ond cyrff sydd ar y Gofrestr o Gyrff Asesu Canlyniadau Terfynol (RoEPAO) - a ddelir gan yr ESFA) sy'n gymwys i gynnal asesiadau EPA ar gyfer bob prentisiaeth benodol.

¹⁶ Gwelwch www.seec.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/SEEC-descriptors-2016.pdf

- Am fod safonau prentisiaeth yn cael eu datblygu gan gonsortia o gyflogwyr (a elwir yn 'Arloeswyr'), mae ymgysylltiad cynnar gyda'r grwpiau hyn yn gallu bod yn ddull gwerthfawr o gyfrannu at y camau o gynllunio a datblygu i hyrwyddo aliniad gyda'r disgwyliadau o ran ansawdd a'r safonau addysg uwch gofynnol. Mae'r holl safonau prentisiaeth wedi'u gosod ar lefel a ddylai gyfateb gyda chymwysterau academiaidd cydnabyddedig, sef lefelau 4 i 7 ar gyfer addysg uwch. Gall darparwyr addysg uwch gyfrannu at y broses o ddatblygu safonau prentisiaeth drwy geisio sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad yn adlewyrchu'r disgwyliadau ar lefelau addysg uwch yn briodol fel y maent wedi'u disgrifio gan y FHEQ. Yn ogystal, bydd cyfeirio at ddisgrifwyr lefel megis Disgrifwyr Lefel Credyd SEEC (2016) yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng y disgwyliadau mewn perthynas â lefelau'r cymhwyster prentisiaeth a chymwysterau addysg uwch. Mae gofyn i grwpiau 'Arloeswyr' ddarparu tystiolaeth o gefnogaeth dau o leiaf o ddarparwyr addysg uwch wrth gyflwyno cynnig am brentisiaethau ar lefelau 6 a 7.
- Trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a chymeradwyo, dylai darparwyr addysg uwch ystyried sut mae prentisiaeth sy'n cynnwys addysg uwch yn rhoi cyfleoedd cyfartal i brentisiaid er mwyn cael profiad dysgu a hyfforddi o safon uchel; er enghraifft, drwy ystyried yr amrediad o gyd-destunau gwaith a'r amrywiaeth o sefydliadau cyflogi y bydd y brentisiaeth yn cael ei gweithredu ynddynt. Dylai hyn gynnwys y berthynas rhwng strwythurau'r rhaglenni a'r dulliau dysgu, addysgu ac asesu mewn perthynas â phatrymau gwaith, lleoliad(au) daearyddol a gofynion penodol y gwaith sy'n ofynnol.
- Wrth werthuso eu prosesau cynllunio, datblygu a chymeradwyo, mae darparwyr addysg uwch yn adolygu ymhle y mae angen newidiadau er mwyn gallu darparu prentisiaethau, a lle byddai arweiniad ychwanegol yn ddefnyddiol (er enghraifft, yn ymwneud â'r ffordd mae darparwyr addysg uwch yn adeiladu Safonau Prentisiaeth cymeradwy a chynlluniau EPA cymeradwy i mewn fel pwyntiau cyfeirio ar gyfer datblygu eu prentisiaethau).
- Wrth ystyried y trefniadau ar gyfer digwyddiadau dilysu a chymeradwyo ac yn rhan o'r trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd, dylai darparwyr addysg uwch geisio sicrhau bod arbenigedd ymarferol priodol wedi'i gynrychioli ar banelau dilysu a chymeradwyo. Mae'r gofyniad bod prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch yn cynrychioli paratoad priodol i alluogi i brentisiaid ddangos dyletswyddau a gwybodaeth/sgiliau/ymddygiad fel tystiolaeth o'r lefel ofynnol o gymhwysedd galwedigaethol yn golygu na fydd arbenigedd academiaidd yn y maes astudio'n ddigonol o bosib. Bydd y dulliau'n amrywio, yn dibynnu ar ddisgwyliadau'r sector diwydiannol perthnasol, ond efallai, yn arbennig i Brentisiaethau Gradd, gallai panelau dilysu a chymeradwyo gynnwys aelodau annibynnol allanol sy'n dod ag arbenigedd ymarferol ac arbenigedd yn y maes astudio. Gallai hyn hefyd gynnwys cynrychiolwyr cyrff PSRB lle mae'r brentisiaeth yn arwain at gydnabyddiaeth ffurfiol gan gorff PSRB a enwir.
- Mae'r cyflogwr a'r darparwr addysg uwch fel ei gilydd wedi rhannu cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd profiad dysgu a hyfforddi'r prentis ar gyfer prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith; gofynnir i'r cyflogwr a'r darparwr gydweithredu'n effeithiol ymhob agwedd o'r brentisiaeth i ddarparu cyfleoedd dysgu a hyfforddi o safon uchel i'r prentis. Yn arbennig, dylid cael trefniadau clir ynghylch y ffordd y bydd y prentis yn cael ei gefnogi yn y gweithle i ddatblygu'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad a nodir yn y safon brentisiaeth. Wrth ddilysu neu gymeradwyo rhaglenni addysg uwch i bwrpas darparu prentisiaethau, dylai darparwyr addysg uwch ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau mentora yn y gweithle sydd wedi'u cynnig, sut mae mentoriaid yn y gweithle'n cael eu hymsefydlu a'u cefnogi i wneud y rôl gan y cyflogwyr a'r darparwyr fel ei gilydd a sut mae'r rhyngweithio wedi'i strwythuro rhwng y mentor yn y gweithle, y prentis a'r tiwtor o'r darparwr addysg uwch. Dylai panelau dilysu a chymeradwyo hefyd ystyried sut y bydd y darparwr addysg uwch yn gweithio gyda'r cyflogwr i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith y mae'r prentisiaid

yn gweithio ynddo'n briodol i'w galluogi nhw i ddatblygu'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer y Safon Brentisiaeth berthnasol. Dylai hyn hefyd gynnwys materion yn ymwneud â chymorth bugeiliol, diogelu, y ddyletswydd Prevent, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a diogelwch.

Y Gynghrair Ansawdd

Mae'r Gynghrair Ansawdd yn cynnwys asiantaethau sy'n cymryd rhan yn y gwaith o sicrhau ansawdd prentisiaethau. Mae'r gynghrair yn cynnwys: yr Adran Addysg yn Lloegr, yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau, y Sefydliad Prentisiaethau, y Swyddfa Myfyrwyr, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, Ofqual ac Ofsted. Mae Prifysgolion y DU, Cymdeithas y Colegau a'r Gymdeithas Darparwyr Dysgu a Chyflogwyr (AELP) yn cynghori'r Gynghrair Ansawdd.

Mae'r Gynghrair Ansawdd wedi datblygu, ymgynghori ar a chyhoeddi Datganiad Ansawdd¹⁷ dan arweiniad y Sefydliad Prentisiaethau. Cafwyd ymgynghoriad eang arno a derbyniodd y cynnwys manwl gefnogaeth gref gan gyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Ymgynghorwyd hefyd â Phanel Prentisiaid y Sefydliad Prentisiaethau.

Mae'r Datganiad Ansawdd yn diffinio cyfres o ddatganiadau o ansawdd mewn prentisiaethau sy'n ymwneud â:

- 1 Beth yw prentisiaeth a beth sydd ddim yn brentisiaeth
- 2 Y bartneriaeth y cytunwyd arni rhwng y cyflogwr, y prentis a'r darparwr fel y nodir yn y Datganiad Ymrwymiad
- 3 Yr alwedigaeth a'r safon
- 4 Y swydd fel sail y brentisiaeth
- 5 Y rhaglen hyfforddi
- 6 Yr asesiad o'r canlyniad terfynol.

Mae'r Sefydliad Prentisiaethau'n uniongyrchol gyfrifol am ansawdd y datganiad cyntaf, y trydydd a'r chweched; bydd y cyflogwyr, y darparwyr sy'n gyflogwyr a'r prif ddarparwyr yn gyfrifol am y datganiadau eraill, a bydd y cyfrifoldebau hyn yn amrywio, yn dibynnu ar y trefniadau a nodir yn y cytundebau ysgrifenedig (contractau). Fodd bynnag, bydd gan y darparwr addysg uwch y cyfrifoldeb pennaf bob amser am ansawdd darpariaeth hyfforddiant ei brentisiaethau (fel aelod o'r gofrestr RoATP ac fel darparwr addysg uwch) ac am ansawdd a safonau unrhyw ddyfarniad y mae'n ei gyflwyno (fel corff dyfarnu graddau).

Yr Alban

Ar hyn o bryd, mae Prentisiaethau â Gradd ar gael o lefel 8 SCQF (diploma addysg uwch) hyd at lefel 11 SCQF (lefel gradd meistr). Mae'r cymhwyster y mae prentis yn ei dderbyn ar y diwedd yr un fath â'r un y bydden nhw'n ei gael wrth gwblhau rhaglen ddysgu gonfensiynol gyda sefydliad addysg bellach neu addysg uwch.

Bydd Prentisiaeth â Gradd ar lefel 10 SCQF (lefel gradd anrhydedd) yn cymryd hyd at bedair blynedd i'w chwblhau a bydd Prentisiaeth â Gradd ar lefel 8 SCQF (lefel diploma addysg uwch) yn cymryd hyd at ddwy flynedd i'w chwblhau. Gallai rhai unigolion gwblhau'r Brentisiaeth â Gradd mewn cyfnod byrrach am fod y flwyddyn waith yn hirach na'r flwyddyn brifysgol gan olygu y gallai'r amser cyfan gael ei ostwng.

¹⁷ Gwelwch www.instituteforapprenticeships.org/quality/what-is-a-quality-apprenticeship

Yn y mwyafrif o achosion, mae'r cyrsiau Prentisiaeth â Gradd wedi'u mapio i safonau cyrff proffesiynol felly bydd prentisiaid yn gallu gwneud cais am aelodaeth mewn unrhyw gorff proffesiynol sy'n berthnasol i'w diwydiant ar ddiwedd eu rhaglen.

Mae Prentisiaethau â Gradd yn cefnogi caffael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i raddedigion weithio a datblygu mewn diwydiant. Cânt eu caffael a'u hariannu'n rhannol gan Skills Development Scotland (SDS).

Mae SDS yn datblygu fframweithiau cenedlaethol sydd wedi'u halinio i'r sectorau galw a thyfiant cyfredol ledled yr Alban.

Wrth gynllunio, datblygu a darparu Prentisiaethau â Gradd, disgwylir i ddarparwyr addysg uwch weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr ac unrhyw ddarparwyr eraill sy'n cymryd rhan (megis colegau) i gynllunio rhaglen astudio sy'n:

- ateb y meini prawf ar gyfer Prentisiaethau â Gradd a ddatblygwyd gan SDS
- cyflawni amcanion y fframwaith ar gyfer Prentisiaethau â Gradd fel y cawsent eu datblygu gan y Grŵp Arbenigwyr Technegol
- ateb anghenion y cyflogwyr, a gofynion academiaidd y corff dyfarnu
- nodi nodau a dyheadau clir i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda phrosesau priodol ar waith i bwrpasau monitro a phwrpasau eraill
- sicrhau cyswllt gyda'r cyflogwr ynghylch y cynnwys a'r gweithgareddau ymarferol yng nghynllun hyfforddi a dysgu unigol y prentis, gan gynnwys y technolegau a/neu'r amgylcheddau datblygu meddalwedd a ddefnyddir
- sicrhau prosesau gwerthuso a gwella cadarn ar gyfer y rhaglenni a gynigir
- datblygu darpariaeth ddysgu drwy adlewyrchu ac adolygu prosesau gwaith a phrofiad gwaith.

Cymru

Bydd fframweithiau wedi'u datblygu gyda chyflogwyr hefyd a bydd y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys ar y fframweithiau hynny wedi bod trwy broses i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer fframweithiau prentisiaeth ac yn ateb anghenion y cyflogwyr. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth am y farchnad lafur ac adolygiadau'r sector gan Cymwysterau Cymru'n rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ymhle y dylid targedu arian cyhoeddus ar gyfer prentisiaethau. Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, wedi'i hysbysu gan Fwrdd Cynghori ar Prentisiaethau Cymru, yn ystyried datblygiadau ar gyfer prentisiaethau yn rhan o'i gylch gwaith a bydd yn cynghori ar ddatblygu fframwaith.

Mae'n hanfodol bod prentisiaethau yng Nghymru o safon uchel. Dim ond sefydliadau sy'n cael eu cyllido gan CCAUC all ddarparu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn disgwyl bod Prentisiaethau Gradd:

- yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009
- yn cydymffurfio â Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru
- wedi'u halinio'n agos â'r rhaglen ehangach ar gyfer prentisiaethau, ac
- yn darparu cyfle i gydweithredu rhwng y sector addysg uwch a'r rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith ar bob lefel o Prentisiaethau Uwch.

Gogledd Iwerddon

Mae'r rhaglen Brentisiaeth Lefel Uwch yng Ngogledd Iwerddon yn darparu llwybr proffesiynol a thechnegol seiliedig ar waith amgen i'r cyfranogwyr a'r cyflogwyr gyflawni cymwysterau a gymeradwyir gan y sector diwydiannol ar lefel 4 ac yn uwch. Mae'r rhaglen, a lansiodd ym mis Medi 2017 yn dilyn nifer o flynyddoedd o dreialu, yn darparu cyfleoedd ar lefelau 4 a 5 drwy'r chwe choleg addysg bellach lleol gyda chyfleoedd ar lefel 6 ac yn uwch drwy'r tair prifysgol leol.

Mae pob Prentisiaeth Lefel Uwch yn cynnwys hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, gyda'r cyfranogwr yn gweithio tuag at gymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, yn cael ei achredu ac yn cael ei ardystio gan gorff neu sefydliad dyfarnu cenedlaethol. Mae pob Prentisiaeth Lefel Uwch wedi'i lunio drwy bartneriaeth yn y sector, ac mae Adran yr Economi'n darparu ariannu llawn ar gyfer yr elfen hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gyda chymhelliad ychwanegol i gyflogwyr bach a chanolig.

Mae partneriaethau sector wedi cael eu sefydlu mewn 18 o wahanol ardaloedd, gan ddod â chyflogwyr, cyrff diwydiannol ac arbenigwyr cwricwlwm o'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach at ei gilydd. Mae'r cyrff hyn yn gweithio i greu llwybrau sy'n cynnig cymhwyster unigol ar draws y sector ar bob lefel, a llwybrau cynnydd sy'n galluogi i gyfranogwyr barhau eu dysgu.

Recriwtio, dethol a derbyn

Mae dyletswyddau darparwyr addysg uwch mewn perthynas â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr, fel sydd wedi'u nodi yn y Cod Ansawdd, wedi'u tanategu gan 'egwyddorion mynediad teg Schwartz' sy'n egwyddorion a dderbynnir ar raddfa eang.

Mae'r egwyddorion hynny'n nodi y dylai system dderbyn deg:

- fod yn eglur, a darparu gwybodaeth gyson ac effeithlon
- ddethol myfyrwyr fydd yn gallu cwblhau'r cwrs ar sail eu cyflawniadau a'u potensial
- ddefnyddio dulliau asesu sy'n ddibynadwy a dilys
- leihau'r rhwystrau i ymgeiswyr
- fod yn broffesiynol ymhob agwedd a'i thanategu gan drefnau a phrosesau sefydliadol.

Bydd yr arferion hyn yn golygu bod modd dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau'r rhaglen astudio ddewisol.

Er y byddai disgwyl i ddarparwyr lynu wrth yr egwyddorion hyn ymhob un o'u gweithgareddau recriwtio, dethol a derbyn, mae'r prosesau ar gyfer recriwtio a derbyn i brentisiaethau'n wahanol i'r rheiny a ddefnyddir i recriwtio a derbyn myfyrwyr. Fel cyflogeion, bydd prentisiaid fel arfer yn cael eu recriwtio gan y cyflogwr; yng Ngogledd Iwerddon mae rhai darparwyr hyfforddiant yn gwahodd ceisiadau i'r rhaglen, yn llunio'r rhestr fer ac yn cyflwyno detholiad i'r cyflogwr. Maent yn gwneud hyn ar gais y cyflogwr, ac mae'n digwydd yn fwy gyda busnesau bach a chanolig. Efallai y bydd angen trefnau derbyn deuol i sicrhau bod gofynion penodi'r cyflogwr wedi'u bodloni, yn ogystal â gofynion mynediad sylfaenol y darparwr addysg uwch. Ar y llaw arall, gallai'r cyflogwr ddewis gweithio mewn partneriaeth â darparwr addysg uwch i gefnogi'r detholiad ac i leihau'r angen am drefnau derbyn deuol. Wrth wneud hyn efallai y bydd gofyn i staff y darparwr addysg uwch gymryd rhan yn y prosesau o asesu a chyfweld ymgeiswyr.

Lloegr

Mae'r broses o ddedol prentisiaid yn Lloegr yn weithgaredd dan arweiniad cyflogwyr yn bennaf. Felly mae'n adlewyrchu'r prosesau recriwtio a weithredir gan gyflogwyr, a allai gynnwys rhywfaint o sgrinio a dethol cychwynnol. Mae'n bwysig nodi y gall prentisiaid fod naill ai'n gyflogeion newydd neu'n rhai sydd yno'n barod ac y gallai'r gofynion wahaniaethu o ran y dystiolaeth y mae ei hangen o deilyngdod a photensial i lwyddo.

Mae angen i ddarparwyr addysg uwch ystyried y gofynion mynediad a osodwyd o fewn y Safon Brentisiaeth gymeradwy berthnasol. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r disgwyliadau sydd wedi'u gosod fel gofynion mynediad yn y Safonau Prentisiaeth o'u cymharu gyda'r rheiny a osodir gan ddarparwyr addysg uwch ar gyfer rhaglenni addysg uwch sydd wedi'u llunio neu sy'n cael eu defnyddio i ddarparu prentisiaethau. Dylai hyn gynnwys ystyried cymwysterau mynediad sylfaenol a phwyntiau UCAS, lle maent yn wahanol i'r disgwyliadau a nodir yn y Safon Brentisiaeth gymeradwy. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r ffordd mae modd cyflawni gofynion mynediad gyda mathau eraill o dystiolaeth, megis profiad gwaith blaenorol wedi'i fesur fel blynyddoedd o brofiad a/neu lefelau o gyfrifoldeb.

Mae pob Safon Brentisiaeth yn Lloegr yn gofyn bod prentisiaid wedi dangos cyflawniad cymwysterau lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg cyn symud ymlaen drwy'r 'Porth' i'r asesiad EPA. Mae hyn i bob pwrpas yn gosod y disgwyliad na fydd rhai prentisiaid wedi cyflawni'r cymwysterau lefel 2 yma cyn cael eu cyflogi fel prentis ond bod rhaid iddynt eu cwblhau'n llwyddiannus cyn yr asesiad EPA. I lawer o ddarparwyr addysg uwch gallai'r disgwyliad yma wrthgyferbynnu'r arfer sefydledig o ofyn am gyflawni cymwysterau lefel 2 (o leiaf) mewn Saesneg a/neu Fathemateg cyn cael lle ar raglenni addysg uwch. Dylai darparwyr addysg uwch ystyried yn ofalus a ddylai'r cymwysterau lefel 2 hyn fod yn rhagofyniad bob amser ar gyfer mynediad ac, os nad, o dan ba amgylchiadau a sut y gellir dangos tystiolaeth o ddulliau eraill o ganfod a oes gan brentis y potensial i lwyddo. Wrth weithio gyda chyflogwyr, a fydd yn recriwtio'r prentisiaid, mae angen i ddarparwyr addysg uwch sefydlu dulliau eglur, dibynadwy a dilys o wneud beirniadaethau am botensial yr ymgeiswyr gan gynnwys mewn perthynas â chymwysterau lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg. Dylid nodi hefyd mai cyfrifoldeb y darparwr addysg uwch yw hi i wneud trefniadau i helpu unrhyw brentis sydd heb y cymwysterau lefel 2 gofynnol i'w cyflawni nhw cyn y Porth i'r asesiad EPA. Mae cyllid ar wahân ar gael ar gyfer prentisiaid o'r fath; mae'n rhaid i gyflogwyr ganiatáu amser o'r gwaith i fynd am yr hyfforddiant a'r dysgu sy'n ofynnol er mwyn cyflawni cymwysterau lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg. Ni cheir cynnwys yr amser yma o fewn yr isafswm amser gofynnol ar gyfer hyfforddiant a dysgu i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer y brentisiaeth (sef 20 y cant ar hyn o bryd).

Fel arfer, bydd safonau prentisiaeth yn nodi ar y cychwyn ymhle y bydd cyfleoedd ar gael i dderbyn cydnabyddiaeth am ddysgu blaenorol ac, eto, mae angen i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r gofynion a ddisgrifir yn nogfennau'r Safon Brentisiaeth ac yn eu polisïau a'u trefnau eu hunain ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol.

Lle derbynnir mynediad nad yw'n safonol i raglen, dylai'r darparwr allu dangos sut mae'n cefnogi'r prentis i ddatblygu unrhyw wybodaeth/sgiliau/ymddygiad rhagofynnol y dylent fod wedi'u meddu wrth gychwyn.

Mae'r cyflogwr yn gwneud contract yn bennaf gyda'r darparwr i ddarparu'r brentisiaeth, yn hytrach na'r dull traddodiadol lle mae'r darparwr yn gwneud contractau gyda'r myfyriwr. Fodd bynnag, lle mae'r brentisiaeth yn cynnwys cymhwyster addysg uwch, bydd gan y darparwr addysg uwch berthynas gytundebol gyda'r prentis fel myfyriwr hefyd. Mae darparu prentisiaethau'n cynnwys dimensiynau cytundebol pwysig y mae angen i'r darparwyr addysg uwch a'r cyflogwyr eu hystyried. Bydd y drefn benodol wedi'i diffinio yn y cytundeb (contract) ysgrifenedig rhwng y cyflogwr a'r darparwr addysg uwch, ac yn y Datganiad Ymrwymiad tairochrog rhwng y cyflogwr, y darparwr a'r prentis. O ran Prentisiaethau Gradd 'anintegredig', dylid ystyried hefyd rôl y

Corff Asesu Canlyniadau Terfynol (EPAO) a'r rhyngweithio y mae'n ei wneud gyda'r darparwr a'r prentis yn y drefn honno.

Er mwyn cefnogi'r broses recriwtio, dethol a derbyn, bydd y darparwr addysg uwch yn cyhoeddi gwybodaeth am ei gynnig prentisiaeth; sut mae'n rheoli a threfnu'r ddarpariaeth ac yn sicrhau ei hansawdd; a sut mae prentisiaethau'n cyfateb gyda strategaeth, gwerthoedd a chenhadaeth gyffredinol y darparwr a'r polisïau sy'n tanategu ei waith. I ddarpar brentisiaid a'u cyflogwyr, gallai'r wybodaeth hefyd gynnwys:

- y math a'r lefel o brentisiaethau a gynigir
- y gwahanol leoliadau a moddau dysgu sy'n cael eu cefnogi a sut mae'r rhain yn cael eu trefnu gan y darparwr a'r cyflogwr
- efallai hefyd y bydd gofyn i'r darparwyr addysg uwch gyfeirio at wasanaethau sy'n darparu gwybodaeth am y swyddi gwag sydd ar gael i brentisiaid megis y gwasanaeth 'Find an Apprenticeship Service'¹⁸; gallent gyfeirio at yr wybodaeth am brentisiaethau sydd ar gael ar wefan UCAS¹⁹
- mewn rhai achosion, gallai darparwyr addysg uwch weithio gyda chyflogwyr partner a darparu gwybodaeth benodol am y swyddi gwag sydd ar gael i brentisiaid yn uniongyrchol
- rôl ganolog cyflogwyr mewn recriwtio a dethol a sut mae hyn yn cyfateb gyda gofynion mynediad y darparwr addysg uwch, gan gynnwys gofynion am gymwysterau lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg. Lle bo'n briodol, byddai hyn yn cynnwys manylion am gydnabod dysgu blaenorol.

Dadansoddi Anghenion Hyfforddi a Chydnabod Dysgu Blaenorol

Mae targed y daith brentisiaeth wedi'i esbonio ymhob Safon ac Asesiad o'r Canlyniad Terfynol. Gallai anghenion hyfforddi bob prentis unigol fod yn wahanol a, thrwy ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, dylid pennu beth yw'r man cychwyn i bob prentis cyn y dyddiad cychwyn. Mae hyn yn alinio gyda'r egwyddorion o gydnabod dysgu blaenorol. Gall dysgu blaenorol gario credydau a gall ymwneud fwy â phrofiad nag addysg ac felly dylai'r cyngor a'r arweiniad cychwynnol ganolbwyntio ar y dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/yymddygiad y mae'r dysgwyr wedi'u cyflawni'n barod mewn perthynas â'r lefelau gofynnol yn y brentisiaeth.

Gallai dyfarniad academiaidd neu hyfforddiant blaenorol ddangos meysydd gwybodaeth yn glir, a hynny weithiau'n fwy na sgiliau proffesiynol ac ymddygiad proffesiynol. Fodd bynnag, ar lefel gradd mae'n rhaid cydnabod natur gyfannol y dysgu fel cyfuniad o theori gymhwysol ac ymarfer myfyriol. Wrth wneud dadansoddiad o anghenion hyfforddi a phriodoli dysgu blaenorol, dylai darparwyr addysg uwch weithio gyda'r cyflogwr a'r prentis i ystyried:

- dyfarniadau â chredydau blaenorol ar yr un lefel neu ar lefel uwch sy'n dangos bod dyletswyddau a gwybodaeth/sgiliau/yymddygiad penodol wedi'u cyflawni; nid oes angen astudio rhai modiwlau ar y lefel berthnasol ac, yn wir, ni ellir ariannu'r modiwlau yma
- lle mae profiad seiliedig ar waith sylweddol yn dangos cyflawniad dyletswyddau a gwybodaeth/sgiliau/yymddygiad, yna nid oes angen astudio rhai modiwlau perthnasol ac ni ddylid eu hariannu
- weithiau gall y cyfuniad o brofiad a hyfforddiant â chredydau weithredu gyda'i gilydd i gyfri fel dysgu blaenorol sy'n negyddu modiwlau astudio penodol ac sy'n atal ariannu'r modiwlau hynny am na fyddent yn gyfystyr â dysgu newydd.

Unwaith mae'r elfennau uchod wedi derbyn ystyriaeth, mae'n bwysig bod yr amser sy'n weddill ar y brentisiaeth yn cynnig y cyfle i gyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau a gwybodaeth/sgiliau/

¹⁸ Gwelwch www.findapprenticeship.service.gov.uk/apprenticeshipsearch

¹⁹ Gwelwch www.ucas.com/apprenticeships-in-the-uk

ymddygiad drwy'r elfen ar-y-rhaglen ac unrhyw weithgareddau seiliedig ar waith. Ystyriwch a yw hi'n rhesymol addasu dyddiad gorffen y brentisiaeth i ganiatáu i bob elfen o'r Porth gael ei chyflawni, ond os yw hyn yn ymestyniad anghymesur o ddiwedd cymhwyster ffurfiol wedi'i fandadu, yna efallai na fydd yn ddefnydd priodol o'r llwybr prentisiaeth. Mewn achosion o'r fath, bydd yr elfennau dysgu'n ddatgymalog a bydd y risg o fethu cwblhau'n rhy uchel.

Ymysg yr egwyddorion eraill i'w hystyried mae'r rhain:

- dim ond dysgu newydd all gael ei hariannu; wrth ystyried beth yw dysgu newydd mae'n briodol cydnabod yr effaith y gall sgiliau meddwl beirniadol lefel uwch eu cael ar ddatblygiad sgiliau ac ymddygiad, hyd yn oed os oes gan y prentis brofiad sylweddol
- does dim rheswm pam na all y dysgwr ailadrodd dysgu y tu allan i'r brentisiaeth, ond ni fydd wedi'i ariannu ac ni fydd yn cyfri tuag at 20 y cant o ddysgu i ffwrdd o'r gwaith
- os yw'r dysgwr yn dangos y mwyafrif o'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad yn barod ac yn barod, fwy na heb, i sefyll yr Asesiad o'r Canlyniad Terfynol, yna ni fyddai'n briodol, nag yn bosibl, i ddefnyddio ariannau'r brentisiaeth i wneud dim mwy nag ychwanegu'r cymhwyster ffurfiol
- mewn achosion eraill, gallai ymgeiswyr sy'n fwy profiadol ddangos maint sylweddol o brofiad ond maent yn dal i fod angen dangos tystiolaeth o'u galluoedd ar lefel gradd a byddai'r cymhwyster ffurfiol yn ddyfais ddoeth a chymwys i gefnogi integreiddiad cyfannol y dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad ar lefel gradd.

Mewn rhai achosion, gallai cynllun EPA y brentisiaeth wrthod cydnabod dysgu blaenorol.

Lle mae caniatâd i gydnabod dysgu blaenorol, mae'n rhaid ateb gofyniad gwaelodlin y brentisiaeth o 12 mis o leiaf ac 20 y cant o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.²⁰ Mae'r gofynion hyn ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw sy'n cael ei ddarparu ar ôl unrhyw ostyngiadau oherwydd cydnabod dysgu blaenorol.

Yr Alban

Cynigir Prentisiaethau â Gradd i weithwyr sy'n cychwyn o'r newydd a gweithwyr sydd mewn cyflogaeth yn barod mewn cwmnïau yn yr Alban. Mae'r prosesau recriwtio, dethol a derbyn yn cael eu haddasu yn ôl cyd-destun y darparwr addysg uwch, gofynion y cyflogwr a gofynion mynediad y rhaglen addysg uwch.

Rhaid i unigolion sy'n cael eu recriwtio ar Brentisiaethau â Gradd gael eu hasesu fel rhai sydd â siawns resymol o gyflawni'r radd a ddewiswyd, yn nhermau cynnwys y cwrs ac hefyd yn nhermau datblygu priodoleddau graddedigion ehangach.

Felly, byddai proses dderbyn y darparwr addysg uwch yn cymryd i ystyriaeth ofynion y cyflogwr ac yn cysylltu gyda chyflogwyr i ddarparu mynediad priodol i'w raglenni.

Gallai darparwyr addysg uwch hefyd osod gofynion sylfaenol i'r ymgeiswyr i gyfateb â'r gofynion mynediad i'w rhaglenni gradd eraill. Gyda chytundeb, gellid anwybyddu'r gofynion mynediad yn ystod y cam dethol os dangosir gallu cyfatebol. Gellir rhoi achrediad ffurfiol i ddysgu blaenorol drwy gydnabod dysgu blaenorol.

²⁰ Gwelwch www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-funding-and-performance-management-rules-2017-to-2018

Er mwyn cefnogi'r broses recriwtio, dethol a derbyn, bydd y darparwr addysg uwch yn cyhoeddi gwybodaeth am ei gynnisg prentisiaeth, yn cynnwys:

- teitl, lefel a dull darparu'r prentisiaethau a gynigir
- y gofynion mynediad isaf a mwyaf nodweddiadol ac unrhyw ffactorau cyd-destunol sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli a'i threfnu a sut y sicrhewr ei hansawdd
- sut y gellir defnyddio dulliau hyblyg wrth asesu pa mor addas yw ymgeiswyr, drwy gymryd i ystyriaeth unrhyw gymwysterau galwedigaethol eraill sydd ganddynt, eu dysgu blaenorol cydnabyddedig a chyfraniad gan gyflogwyr.

Cymru

Mae'r broses o ddethol prentisiaid yng Nghymru'n weithgaredd dan arweiniad cyflogwyr yn bennaf, oherwydd bydd yr holl brentisiaid yn cael eu penodi ar statws cyflogedig. Bydd angen i'w rôl waith fodloni gofynion y fframwaith lefel 6 a bennwyd ar gyfer prosesau derbyn a darparu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru ac mae'n cynnwys gofynion mynediad y cyflogwr a'r corff dyfarnu.

Bydd contractau prentisiaeth yn cynnwys y trefniadau ychwanegol hyn:

- mae prentisiaid yn treulio 51 y cant neu fwy o'u hamser yn gweithio yng Nghymru
- mae cytundeb prentisiaeth yn ei le
- mae prentisiaid yn derbyn dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith
- mae prentisiaid yn cael adolygu eu cynnydd bob deufis o leiaf; dylai adolygiadau gynnwys y sefydliad a gyllidir gan CCAUC, y dysgwr a'r cyflogwr
- cydnabyddir profiad a dysgu blaenorol lle bo'n briodol
- gall y prentisiaid gael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau y mae'r sefydliad a gyllidir gan CCAUC yn eu cynnisg i'w fyfyrwyr
- gall y prentisiaid gael lefel gyfatebol o gymwysterau â'r rheiny sydd wedi'u cynnwys ar y fframwaith prentisiaeth ond nid yn yr un pwnc.

Gogledd Iwerddon

Mae prosesau recriwtio, dethol a derbyn ar gyfer Prentisiaethau Lefel Uwch wedi'u disgrifio i ddarparwyr lleol mewn dogfen Gofynion Gweithredol. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i gyfranogwr gwrdd â'r meini prawf a ganlyn o leiaf:

- a) bod wedi cyrraedd yr oedran gadael ysgol gorfodol; (16 fel ydoedd ar 1 Gorffennaf cyn dyddiad cychwyn y rhaglen)
- b) bod yn gyflogai newydd o fewn, neu ar fin derbyn cynnisg swydd gyflogedig barhaol, yn cynnwys dyddiad cychwyn penodol a thystiolaeth wedi'i dogfennu gan y cyflogwr o'r cynnisg swydd ei hun, neu bod yn gyflogai yn barod mewn rôl swydd newydd sy'n gofyn llawer iawn o ddatblygiad o ran sgiliau a dysgu sy'n gyfatebol â'r llwybr prentisiaeth
- c) bod yn gyflogedig gan gwmni sydd wedi'i seilio yng Ngogledd Iwerddon a bod ar gontract i weithio o leiaf 21 awr yr wythnos (sy'n cynnwys hyfforddiant cyfeiriedig 'rhyddhau am ddiwrnod'/i ffwrdd o'r gwaith') i'r un cyflogwr; rhaid i'r hyfforddiant cyfeiriedig fod yn waith y telir amdano yn rhan o oriau dan gontract y prentis

- d) bod â'r potensial i gyflawni gofynion y Brentisiaeth Lefel Uwch berthnasol yn llwyddiannus
- e) cwrdd ag unrhyw ofynion iechyd, er enghraifft golwg da o ran gweld lliw, sy'n benodol i'r alwedigaeth o'u dewis
- f) bod wedi cyflawni'r holl gymwysterau mynediad academiaidd a nodir gan y sector perthnasol ar gyfer y brentisiaeth a gymeradwywyd gan Adran yr Economi
- g) pasio unrhyw asesiadau mynediad a bennir gan y sector perthnasol ar gyfer y brentisiaeth a gymeradwywyd gan Adran yr Economi.

Gallai cyflogwyr ddefnyddio eu meini prawf eu hunain yn ystod y recriwtio. Fodd bynnag, dim ond y rheiny a asesir fel pobl sy'n gallu/sy'n ymroddedig i gyflawni gofynion llawn Prentisiaeth Lefel Uwch ddylai gael eu cofrestru ar y rhaglen. Lle bo'n briodol, gallai Partneriaeth Sector gytuno i gyfres o feini prawf recriwtio, i ddarparu dull unffurf ac i gwrdd ag anghenion cyflogwyr.

3.2 Dysgu ac addysgu

Dysgu, addysgu a datblygu prentisiaid

Un o nodweddion allweddol prentisiaethau yw bod y rhan fwyaf o'r dysgu a'r hyfforddi'n digwydd 'yn y gwaith' tra bo prentisiaid yn gwneud gweithgareddau gwaith. Mae'n hanfodol felly bod gwaith y prentis yn darparu ffynhonnell i ddysgu, amgylchedd i ddysgu ynddo a'r cyd-destun allweddol ar gyfer dysgu. Yn y cyfamser, gall hyfforddiant a dysgu 'i ffwrdd o'r gwaith' fod ar ffurf darpariaeth wyneb yn wyneb draddodiadol gan ddarparwr addysg uwch, neu ddigwydd o fewn y gweithle, efallai gan ddefnyddio cyfleusterau'r gweithle a gallent gael eu cefnogi gan amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar-lein. Mae integreiddiad hyfforddiant a dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn hanfodol ar gyfer darparu prentisiaeth o safon uchel. Yr integreiddiad yma, a'r ffocws ar ddarparu cymhwysedd galwedigaethol, yw'r hyn sy'n gwahaniaethu prentisiaeth oddi wrth ddysgu'n rhan amser mewn swydd.

Mae'r Cod Ansawdd yn cydnabod bod addysg uwch y DU yn croesawu amrywiaeth eang o ddulliau dysgu ac addysgu, y gellir eu defnyddio mewn gwahanol gyfuniadau ac sy'n cynnwys dysgu hyblyg a dosranedig, dysgu seiliedig ar waith neu ddysgu yn y gweithle, a dysgu gyda chymorth technoleg. Cydnabyddir hefyd y gall rhai neu bob un o'r cyfleoedd dysgu gael eu darparu gan gyflogwr neu sefydliad sy'n cynnig cyfle dysgu seiliedig ar waith, neu gan gyflogwr sy'n cefnogi ei weithiwr/weithwyr ar raglen addysg uwch lle defnyddir y gweithle fel amgylchedd i ddysgu ynddo.

Felly, mae'r Cod Ansawdd yn darparu cyfle helaeth i ddarparwyr ddefnyddio amrywiaeth eang o safleoedd a sefyllfaoedd dysgu, er mwyn darparu prentisiaethau sy'n alinio ag anghenion y cyflogwyr a'r dysgwyr fel ei gilydd. Ond, mae'n rhoi gofynion penodol ar y rheiny sy'n cynllunio ac yn darparu prentisiaethau i sicrhau bod ansawdd y cyfleoedd dysgu'n gyson gyda rhai'r holl raglenni addysg uwch eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, yr angen i gael cytundeb eglur am gyfrifoldebau bob parti sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddysgu, addysgu a galluogi cyflawniad y myfyriwr. Rhan allweddol o gyfrifoldeb y prif ddarparwr yw sicrhau bod cynnydd y prentis drwy eu prentisiaeth yn cael ei dracio, ar draws bob ffurf o leoliad o ddarpariaeth a bod ymyriadau a/neu addasiadau i'r ddarpariaeth gan ystod o randdeiliaid yn cael eu rheoli a'u cofnodi. Mae hyn yn her ac mae angen cefnogaeth a strwythurau clir i Arweinwyr Rhaglenni Prentisiaeth neu Reolwyr Prentisiaethau weithio oddi mewn iddynt.

Mae'r Cod Ansawdd yn amlygu'r angen i sicrhau bod yr holl staff sy'n addysgu ac yn rheoli/galluogi dysgu, gan gynnwys y staff hynny nad ydynt yn gyflogeion y darparwyr a/neu sydd heb eu seilio ar safle'r darparwr, yn derbyn y gefnogaeth addas, yn meddu ar y cymwysterau cywir ac yn cael eu datblygu'n briodol. Mewn perthynas â mentoriaid yn y gweithle, bydd gan ddarparwyr addysg uwch fel arfer amrywiaeth o adnoddau i gefnogi a datblygu'r amrywiaeth o staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddi prentisiaid ac yn sicrhau bod ganddynt y profiad priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Gallai'r rhain, yn nodweddiadol, gynnwys cyswllt parhaus gyda thiworiaid sydd â chyfrifoldeb am gefnogi datblygiad dysgu prentisiaid (sy'n gallu cynnwys sesiynau ymsefydlu a chyfarfodydd wyneb yn wyneb neu rithwir rheolaidd wedi'u hamserlennu).

Mae'r Cod Ansawdd hefyd yn annog pobl i greu awyrgylch lle mae'r myfyrrwyr yn cymryd y cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain; lle rhoddir pob gwybodaeth iddynt am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, ond sydd hefyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i ymgysylltu â'r rhain. Mae'n gofyn rhoi ystyriaeth i ffiniau'r cyfrifoldeb rhwng staff a'r unigolyn ac yn gofyn i ddarparwyr esbonio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r holl bobl a sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn cefnogi datblygiad a chyflawniad. Mae'n rhoi pwyslais ar bwysigrwydd dysgu myfyriol, ac yn rhagweld y bydd myfyrrwyr yn defnyddio adborth ffurfiol ac anffurfiol i ymgysylltu mewn deialog gyda staff i'w helpu i gynllunio eu dysgu ar gyfer y dyfodol.

Bydd angen i brentisiaid, mewn trafodaeth gyda chyflogwyr a thiworiaid addysg uwch, ddatblygu'r gallu i ganfod cyfleoedd dysgu ychwanegol yng nghyd-destun eu gweithgareddau gweithio o ddydd i ddydd. Gallai'r rhain, er enghraifft, fod ar ffurf prosiectau seiliedig ar waith wedi'u negodi, sy'n adeiladu ar weithgareddau gwaith ac integreiddio gwybodaeth, sgiliau, ymddygiad a gwerthoedd a ddatblygir drwy ddysgu mewn addysg uwch. Mae datblygu ymarfer myfyriol fel ffordd o gefnogi datblygiad cymhwysedd proffesiynol yn nodwedd gyffredin o brentisiaethau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio agweddau megis logiau dysgu a phortffolios datblygiad proffesiynol fel cyfryngau ar gyfer asesiadau ffurfiannol a chrynodol ar gyfer dysgu, wedi'u cefnogi gan adborth gan fentoriaid a thiworiaid yn y gweithle.

Lloegr

Yn Lloegr, y gofyniad yw bod yn rhaid i o leiaf 20 y cant o bob prentisiaeth ymwneud â dysgu i ffwrdd o'r gwaith, tra bo'r gyfran sy'n weddill yn digwydd yn y gwaith. Mae'r ESFA yn cyhoeddi canllawiau am yr hyn sy'n cyfri fel hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.²¹

Mae'n rhaid i bob prentis ddal Datganiad Ymrwymiad, sy'n nodi'r manylion ar gyfer darparu eu prentisiaeth ac mae'n rhaid iddo hefyd nodi'r hyn a ddisgwylir ac a gynigir gan y cyflogwr, y darparwr addysg uwch (ac unrhyw is-gontractwyr) a'r prentis er mwyn cyflawni'r brentisiaeth.

Un ystyriaeth allweddol i ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig prentisiaethau ag addysg uwch yw integreiddiad hyfforddiant a dysgu yn y gwaith a hyfforddiant a dysgu i ffwrdd o'r gwaith.

Bydd yr asesiad EPA ar gyfer y brentisiaeth (p'un a yw wedi'i integreiddio gyda gradd ai peidio) yn profi i ba raddau y mae cymhwysedd galwedigaethol llawn wedi'i gyflawni drwy'r brentisiaeth. Bydd rhaglenni addysg uwch sy'n ceisio paratoi prentisiaid ar gyfer yr asesiad EPA ar eu mwyaf effeithiol lle maent yn ceisio alinio neu integreiddio hyfforddiant a dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith wrth wneud hynny.

Am mai polisi'r Llywodraeth yw rhoi hyblygrwydd i gyflogwyr wrth benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi eu prentisiaid i ddatblygu'r dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/ymddygiad sydd eu hangen i fod yn gymwys yn yr alwedigaeth, cynghorir 'Arloeswyr' i osgoi amodi gweithgareddau rhagnodol ar-y-rhaglen mewn cynlluniau EPA, heblaw wrth gyfeirio at unrhyw gymwysterau wedi'u mandadu. Mae rhai 'Arloeswyr' yn datblygu rhaglenni hyfforddiant model i roi arweiniad ar y mathau o weithgareddau na ellir eu cynnwys.

Er nad oes gofyniad i gyflogwyr eu defnyddio, gall rôl y mentor yn y gweithle fod yn bwysig yn nhermau darparu cyfleoedd dysgu. Gall mentoriaid helpu prentisiaid i bennu gweithgareddau gwaith perthnasol sy'n gallu gweithredu fel ffynhonnell ar gyfer dysgu sydd wedi'i integreiddio yn y gwaith, gallent gynghori ar ddatblygiad prosiectau seiliedig ar waith, gallent ddarparu adborth ar ddatblygiad cymhwysedd proffesiynol, a gallent roi sylwadau'n ffurfiannol ar gynnydd o ran cyflawni amcanion dysgu a negodwyd sydd wedi'u hintegreiddio yn y gwaith. Mewn rhai prentisiaethau, mae adolygiadau chwarterol neu flynyddol a gofnodir yn ffurfiol rhwng y darparwr addysg uwch a'r cyflogwr yn rhan o ofynion y Porth.

Elfen sylweddol o arbenigedd y rheiny sy'n cefnogi'r dysgu sydd wedi'i integreiddio yn y gwaith mewn prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch yw eu cymwysterau proffesiynol, eu datblygiad proffesiynol parhaus a'u harferion proffesiynol. Mae rhai darparwyr addysg uwch yn cynnig rhaglenni a chymwysterau ffurfiol mewn mentora a hyfforddi i fentoriaid yn y gweithle a mentoriaid eraill yn rhan o drefniadau y cytunwyd arnynt gyda chyflogwyr.

²¹ Gwelwch www.gov.uk/government/organisations/education-and-skills-funding-agency

Dylai trefniadau rhwng darparwyr a chyflogwyr ymwneud â rolau a chyfrifoldebau mentoriaid yn y gweithle lle cânt eu defnyddio, a goblygiad y cyflogwr i adolygu perfformiad y prentis yn ffurfiol gyda chefnogaeth y darparwr addysg uwch, a allai gynnwys mynd i ddigwyddiadau paratoadol ar gyfer yr asesiad EPA.

Mae gan brentisiaid gyfrifoldeb i ymgysylltu â'r hyfforddiant a'r dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith a chymryd y cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. Lle mae prentisiaethau'n arwain hefyd at gydnabyddiaeth gan gorff PSRB, efallai y bydd yn rhaid integreiddio'r gallu i bennu, cynllunio a chymryd y cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol parhaus i mewn i'r dysgu addysg uwch.

Yr Alban

Bydd darparwyr addysg uwch yn gweithio'n agos gyda'r cyflogwyr i ddatblygu manyleb a chynnwys y rhaglen a'r dulliau o ddarparu ac asesu gweithgareddau ymarferol i ateb anghenion cyflogwyr a chyrrff cyflogwyr. Byddent yn mabwysiadu dull cwricwlwm hyblyg sy'n defnyddio amgylchedd gwaith go iawn y prentis a, lle bo'n briodol, y technolegau a/neu'r amgylcheddau datblygu meddalwedd a ddefnyddir yng ngweithle'r prentis.

Mae'n rhaid i'r prentisiaid gael cynlluniau hyfforddi a dysgu unigol. Dylai systemau'r darparwr addysg uwch a'r cyflogwr o reoli Adnoddau Dynol gael eu cydlynu wrth ddatblygu'r cynllun hyfforddi a dysgu unigol er mwyn sicrhau bod y broses o osod y cynllun yn ei gyd-destun mewn perthynas â'r cyflogwr yn effeithiol. O ganlyniad, gallai'r ddarpariaeth gynnwys amrywiaeth o ddulliau mynychu a lleoliadau darparu.

Mae Prentisiaethau â Gradd yn gofyn bod darparwyr addysg uwch yn sicrhau bod dysgu seiliedig ar waith yn parhau'n nodwedd gyson yn y rhaglen gydag o leiaf 80 y cant o'r dysgu a'r addysgu yn digwydd yn y gweithle.

Wrth gynllunio a darparu Rhaglenni Prentisiaeth, bydd darparwyr addysg uwch wedi cymryd anghenion y cyflogwyr i ystyriaeth, gan gynnwys ystyriaeth o'r ffordd mae:

- darparwyr addysg uwch yn cysylltu gyda'r cyflogwr ynghylch y cynnwys a'r gweithgareddau ymarferol yng nghynllun hyfforddi a dysgu unigol y prentis
- y rhaglenni'n alinio gydag amcanion a nodau strategol y cyflogwr, a gyda safonau, er enghraifft safonau galwedigaethol cenedlaethol a safonau cyrrff proffesiynol
- prentisiaid ar Brentisiaethau â Gradd yn cael eu cefnogi gan y cyflogwyr a'r sefydliad, er enghraifft drwy ddefnyddio mentora
- rhaglenni'n datblygu sgiliau sy'n berthnasol i gyflogadwyedd a phriodoleddau graddedigion
- Rhaglenni'n rhoi cyfrif am ddulliau darparu hyblyg.

Bydd y darparwr addysg uwch yn defnyddio ei fanylion fesul blwyddyn cymeradwy a'i gynnwys dangosol i bob Prentisiaeth â Gradd i gyd-gynllunio cynnwys y cwricwlwm a'r dulliau darparu ac asesu'n fanwl ar y cyd gyda'r cyflogwr, er mwyn sicrhau bod y brentisiaeth yn parhau'n gyfredol i ateb anghenion y cyflogwr a'r diwydiant, ac yn cefnogi datblygiad a chyflogadwyedd y prentis.

I gefnogi'r ddarpariaeth Prentisiaethau â Gradd, disgwylir felly i gyflogwyr:

- ddarparu cyfleoedd astudio addas i'r prentisiaid
- ddarparu mentor enwebedig i bob prentis y mae'n rhaid i'r prentis allu cael gafael arnynt yn hawdd
- gysylltu â'r darparwr addysg uwch ynghylch y cynnwys a'r gweithgareddau ymarferol yng nghynllun hyfforddi a dysgu unigol y prentis
- ddarparu'r wybodaeth y cytunwyd arni yn rhan o'r gwaith o asesu'r prentis.

Cymru

Bydd disgwyl i ddarparwyr prentisiaethau gradd yng Nghymru weithio'n agos gyda'r cyflogwyr i ddatblygu cymwysterau sy'n bodloni gofynion y fframweithiau prentisiaeth a ddatblygwyd gan awdurdodau cyflwyno perthnasol mewn ymgynghoriad â chyflogwyr.

Bydd y fframweithiau prentisiaeth gradd yn cynnwys cymwysterau sy'n cydnabod yr wybodaeth a'r cymwyseddau sy'n berthnasol i'r swydd sy'n ofynnol er mwyn cyflawni tystysgrif prentisiaeth. Bydd yr asesiad o'r cymwysterau hyn yn cyfuno elfennau o hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith lle mae'r gweithle a'r ystafell ddosbarth yn dod yn fannau dysgu.

Bydd angen i gynigion sy'n ceisio cyllid ar gyfer darparu Prentisiaethau Gradd ddangos tystiolaeth o'r ffordd y mae anghenion cyflogwyr yn cael eu diwallu.

Bydd Prentisiaeth Gradd lawn yn para tair blynedd o leiaf. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mwy o amser arnynt i sicrhau bod gan y prentis ddigon o amser i ateb gofynion y fframwaith prentisiaeth tra byddent yn gweithio.

Pan fo'n berthnasol, disgwylir i'r sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gydnabod dysgu blaenorol, yn enwedig lle mae unigolion wedi gwneud prentisiaethau ar lefelau is. Lle mae dysgu blaenorol unigolion wedi'i gydnabod, disgwylir i Brentisiaethau Gradd gael eu cyflawni mewn llai o amser.

Bydd sefydliadau a gyllidir gan CCAUC yn cael eu hannog i gynnig darpariaeth drwy ddarparwyr eraill lle mae'n ateb anghenion y cyflogwr a'r prentis orau. Mae croeso i ddulliau darparu hyblyg ac fyddent wedi'u cyfyngi i'r darparwr prentisiaeth gradd arweiniol yn unig.

Bydd gofyn i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gydweithio â darparwyr prentisiaethau eraill i ateb anghenion cyflogwyr ar bob lefel o brentisiaeth a chreu llwybrau cynnydd clir i brentisiaethau o brentisiaethau ar lefelau is. Disgwylir hefyd bod mynediad gan yr holl brentisiaid at yr ystod lawn o wasanaethau y mae'r sefydliad a gyllidir gan CCAUC yn eu cynnig i'w fyfyrwyr.

Gogledd Iwerddon

Mae rhaglenni Prentisiaeth Lefel Uwch yn cael eu datblygu gan bartneriaethau sector gyda rhywfaint o hyblygrwydd i adael i ddarparwyr deilwra darpariaeth yn unigol i ateb anghenion cyflogwyr, gan ddefnyddio mathau o ddysgu cyfunol ac atebion technolegol i sicrhau y dewisir y dulliau mwyaf priodol.

Mae'n rhaid i'r darparwyr hyfforddiant:

- sicrhau mai dim ond y rheiny sydd wedi ymrwmo i gwblhau gofynion llawn y brentisiaeth ddylai gymryd rhan yn y ddarpariaeth, gan bennu'r lefel briodol i gael ei thargedu
- sicrhau eu bod, wrth gychwyn Prentisiaeth Lefel Uwch, yn darparu ymsefydliad ffurfiol i bob prentis, er mwyn rhoi brieff trwyadl iddynt am bob elfen o raglen
- rhoi gwybodaeth i brentisiaid am y broses Cynllun Hyfforddi Personol, y ddeddfwriaeth berthnasol, safleoedd, iechyd a diogelwch, telerau ac amodau cyflogaeth, gwasanaethau cymorth, trefnau cwyno a chwythu'r chwiban, rhybudd preifatrwydd, gwybodaeth gysylltu allweddol o fewn sefydliad y darparwr hyfforddiant a'r llwybrau dilyniant
- darparu gwybodaeth i'r holl brentisiaid am amodau a thelerau'r rhaglen ac am yr arfer orau yn ymwneud ag arferion gweithio'n ddiogel yn y maes galwedigaethol dewisol

- gwneud asesiad cychwynnol o bob prentis i ganfod lefel eu sgiliau a'u cymwyseddau presennol yn gyffredinol; pwrpas yr asesiad cychwynnol hwn yw canfod cryfderau a gwendidau bob prentis a'u hyfforddiant proffesiynol a thechnegol.

Rhaid i'r Darparwr Hyfforddiant, ar ran bob prentis, gwblhau Cytundeb Tairochrog, sy'n mynegi cyfrifoldebau'r partïon a'u hymrwymiad i gwblhau'r brentisiaeth yn llwyddiannus.

Yn ystod y rhaglen, mae'n rhaid i'r darparwr hyfforddiant:

- fonitro hyfforddiant y prentis sy'n dilyn Prentisiaeth Lefel Uwch a chadarnhau bod gofynion y darparwr hyfforddiant o ran sicrhau ansawdd, yn cynnwys goblygiad iechyd a diogelwch, yn cael eu cyflawni
- defnyddio ymdrechion rhesymol i drefnu cyflogaeth amgen addas ar gyfer gweddiill y brentisiaeth, os bydd contract y prentis sy'n dilyn Prentisiaeth Lefel Uwch gyda'r cyflogwr yn dod i ben oherwydd diswyddo
- helpu'r prentis sy'n dilyn Prentisiaeth Lefel Uwch i ganfod a chofnodi eu cyflawniad drwy gydol cyfnod y brentisiaeth
- cytuno, llofnodi a dyddio Cytundeb Tairochrog gyda'r cyflogwr a'r cyfranogwr; rhaid i'r darparwr hyfforddiant gyflwyno copi o'r Cytundeb Tairochrog cyflawn i'r holl lofnodwyr o fewn 12 wythnos i gychwyniad yr hyfforddiant, a chadw copi i bwrpasau arolygu gan Adran yr Economi.

Mae'n rhaid i'r darparwr hyfforddiant, y cyflogwr, a'r prentis gytuno, llofnodi a dyddio Cynllun Hyfforddi Personol mewn perthynas â'r prentis. Rhaid i'r Cynllun Hyfforddi Personol gael ei lofnodi gan riant/gwarcheidwad i brentisiaid anabl iau nag 18 oed, y mae angen gwasanaethau cymorth ar eu cyfer.

3.3 Asesu prentisiaethau

Prosesau asesu

Mae'r Cod Ansawdd yn gofyn bod darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy. Mae'r Cod Ansawdd yn cynnig cyngor ar arferion sy'n galluogi i'r gofyniad yma gael ei gyflawni. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau nid yn unig bod safonau academaidd yn cael eu gosod a'u cynnal yn drwyadl, ond hefyd bod perfformiad y myfyrwyr yn cael ei feirniadu'n gyfartal yn erbyn y safonau yma. Mae gan ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig prentisiaethau ag addysg uwch yr un cyfrifoldebau am asesu'r dysgu sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r brentisiaeth.

Mae'r Cod Ansawdd yn nodi bod asesiad effeithiol yn gofyn bod darparwyr addysg uwch yn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn y gwaith asesu wedi gwneud hyfforddiant priodol ac yn gymwys i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau amrywiol. Bydd angen i'r hyfforddiant hwn gynnwys ffyrdd effeithiol o werthuso i ba raddau mae canlyniadau dysgu wedi'u cyflawni, ac mewn perthynas â phrentisiaethau gallent gynnwys staff mewn partneriaid darparu, gan gynnwys cyflogwyr, lle maent yn rhan o'r prosesau asesu. Lle mae cyrff dyfarnu graddau'n gweithio gydag eraill i gynnig dyfarniadau, disgwylir i bartneriaid darparu (hynny yw, y rheiny sydd heb bwerau dyfarnu graddau) weithredu prosesau asesu o fewn rheoliadau a fframwaith academaidd y corff dyfarnu graddau, yn unol â'u rôl ddynodedig.

Mae'r Cod Ansawdd yn caniatáu ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol o fewn rhaglenni addysg uwch, ar yr amod bod proses asesu briodol yn galluogi i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â ph'un a yw'r dysgu'n addas i gael ei gydnabod.

Gallai prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch gynnwys asesu cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol, yn arbennig lle mae prentisiaethau'n darparu cyfrwng i dderbyn cydnabyddiaeth gan gorff PSRB, yn ogystal ag asesu safonau academaidd. Gallai prosesau asesu o'r fath ddigwydd ar yr un pryd neu gallent ymwneud ag asesiadau ar wahân. Mae cyrff dyfarnu graddau'n gyfrifol yn bennaf am yr asesiad sy'n ymwneud â'r dyfarniad addysg uwch ond gallent fod yn gyfrifol hefyd am asesiadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â safonau prentisiaeth/proffesiynol eraill. Dylai darparwyr addysg uwch ystyried sut y gellid cydlynu gofynion asesu amrywiol y brentisiaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Lloegr

Mae'r holl brentisiaethau yn Lloegr yn gofyn am asesiad EPA synoptig sy'n cael ei asesu'n annibynnol, y mae'r trefniadau ar ei gyfer wedi'u nodi yng nghynllun EPA y Safon Brentisiaeth berthnasol. Gwneir hyn fel arfer gan gorff annibynnol ar wahân sy'n asesu canlyniadau terfynol prentisiaethau (EPAO) wedi'u dewis gan y cyflogwr. Lle mae safon prentisiaeth yn Brentisiaeth Gradd 'integredig', hynny yw, mae'r asesiad EPA wedi'i gynnwys o fewn y dyfarniad gradd, fel y mae wedi'i ddisgrifio yn y cynllun EPA, bydd y darparwr addysg uwch yn gwneud yr asesiad EPA fel rhan annatod o'r radd. Bydd angen i ddarparwyr addysg uwch sy'n cynnig Prentisiaethau Gradd 'integredig' sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Cynllun Asesu'r brentisiaeth berthnasol drwy ddangos bod y broses o gynnal asesiadau EPA yn annibynnol. Bydd angen i'r darparwr addysg uwch fod yn gofrestradig ar y Gofrestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaeth ac ar y Gofrestr o gyrff EPAO, ac mae'n rhaid i'r olaf ymwneud â'r safon brentisiaeth berthnasol.

Mae'r asesiad EPA wedi'i lunio i brofi bod prentisiaid yn gallu dangos y dyletswyddau a'r wybodaeth/sgiliau/yddyddiad a nodir yn y Safon Brentisiaeth berthnasol a'u bod yn gwbl gymwys yn yr alwedigaeth. Rhaid ei wneud ar gam olaf y brentisiaeth, wedi i'r prentis basio gofynion y Porth sydd wedi'u nodi yn y cynllun EPA berthnasol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf dau ddull asesu. Gallai dulliau asesu gynnwys gofynion megis prosiect wedi'i seilio ar

waith neu ymarferiad a/neu asesiad o berfformiad megis cyflwyniad neu drafodaeth broffesiynol. Mae'n bwysig bod y darparwyr yn sicrhau bod gan y prentisiaid fynediad digonol at y mathau yma o asesiad, ac yn ymarfer digon tuag atynt, drwy gydol eu rhaglen a chyn y Porth. Lle mae Safon Brentisiaeth yn cynnwys cydnabyddiaeth gan gorff PSRB, gallai'r asesiad EPA sefyll fel y gofyniad i sefydlu statws proffesiynol a/neu aelodaeth.

Mae'n rhaid i brentisiaid fod wedi cyflawni cymwysterau lefel 2 mewn Saesneg a Mathemateg cyn gwneud yr asesiad EPA.

O ran asesiadau EPA ar wahân sydd heb eu hintegreiddio, mae angen i'r rhain ddigwydd yn ychwanegol at unrhyw asesiad o gyflawniad canlyniadau dysgu y mae darparwyr addysg uwch yn eu gwneud er mwyn sicrhau safonau'r cymhwyster addysg uwch cysylltiedig. Felly mae gofyn gradd sylweddol o aliniad, a allai gychwyn gydag aliniad dyletswyddau a chanlyniadau o ran gwybodaeth/sgiliau/ymddygiad a chanlyniadau dysgu rhaglenni/modiwlau a bennwyd. Ni fydd cwblhau cymhwyster yn llwyddiannus ynddo'i hun yn gyfystyr â chwblhau prentisiaeth ag asesiad EPA ar wahân sydd heb ei integreiddio.

Un o'r ffactorau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer y gofrestr RoEPAO yw bod yr asesiad EPA yn cael ei wneud gan aseswyr sydd â phrofiad ymarferol ac/neu arbenigedd ymarferol perthnasol. Efallai na fydd arbenigedd academiaidd yn y 'maes astudio' yn ddigon i ddangos bod y gallu gan aseswyr i asesu cymhwysedd proffesiynol y prentisiaid er mwyn cyflawni gofynion rôl y swydd gysylltiedig yn llawn; efallai hefyd y bydd gofyniad i gael profiad galwedigaethol / profiad yn y gweithle. Lle mae cwblhau prentisiaeth yn llwyddiannus hefyd yn sicrhau cydnabyddiaeth gan gorff PSRB, gallai'r Cynllun Asesu cysylltiedig ofyn bod yr asesiad EPA yn cael ei wneud gan aseswyr sydd â statws proffesiynol penodol, megis Aelod Siartredig neu Gymrawd.

Gan y darparwr addysg uwch y mae'r cyfrifoldeb am y trefniadau asesu EPA ar gyfer prentisiaethau (yn cynnwys contractio), ond y cyflogwr sy'n dewis y sefydliad a fydd yn cynnal yr asesiad EPA (o'r gofrestr RoEPAO). Cyfrifoldeb y corff asesu canlyniadau terfynol yw hi i sicrhau bod ganddynt drefniadau mewnol cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr na fydd unrhyw wrthdaro buddiannau ar ran yr aseswyr unigol a nhw eu hunain. Y rheswm am hyn yw bod gofyniad i gydymffurfio gyda'r trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd sydd wedi'u nodi yn y cynllun EPA perthnasol, ac mae'n rhaid iddo hefyd ddisgrifio sut y bydd yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posibl wrth gyflwyno cais i gofrestr RoEPAO yr ESFA.

Yr Alban

Yn yr Alban, trwy ddiffiniad, mae'r Prentisiaethau â Gradd yn integredig. Felly, nid oes unrhyw ofynion o ran asesu'r canlyniad terfynol (EPA). Yn bennaf, mae Prentisiaethau â Gradd wedi'u llunio i gael eu darparu a'u hasesu yn y gweithle ac maent yn cymryd i ystyriaeth amrediad o ddulliau asesu sy'n cyd-fynd â dysgu yn y gweithle. Dyma esiampl bosibl o hyn:

- darparu cynnwys generig nad yw'n benodol berthnasol i un cyflogwr yn unig (e.e. gwybodaeth a dealltwriaeth) gan y darparwr addysg uwch, a chynnwys penodol gan y cyflogwr a/neu'r darparwyr preifat
- asesiadau lle mae manyleb y dasg wedi'i llunio gan y darparwr addysg uwch, y cyflogwr a'r prentis, gyda'r gwaith o fonitro ac asesu'r cynnydd gan y darparwr addysg uwch a'r cyflogwr; byddai'r cyflogwr yn darparu mentora i'r prentis i gefnogi cynnydd a chyflawniad datblygu manylebau sgiliau personol a sgiliau busnes sydd wedi'u llunio gan y cyflogwr a'r darparwr addysg uwch, a'i ddarparu gan y cyflogwr (a/neu'r trydydd parti) a'r darparwr addysg uwch; y cyflogwr (a, lle bo'n berthnasol, y trydydd parti) a'r darparwr addysg uwch fyddai'n monitro ac yn asesu'r cynnydd; yn debyg i'r asesiad, byddai'r cyflogwr yn darparu'r gefnogaeth fentora barhaus.

Mae'r esiampI yma'n dangos sut y bydd y darparwr addysg uwch a'r cyflogwr yn gweithio ynghyd er mwyn cefnogi'r gwaith o asesu'r prentis. Bydd y darparwyr addysg uwch a'r cyflogwyr yn sicrhau bod y gweithgareddau asesu wedi'u halinio gyda safonau academaidd y darparwr a'r gweithgareddau yn y gweithle er mwyn adlewyrchu anghenion y cyflogwyr a'r prentis.

Lle mae cydnabod dysgu blaenorol wedi'i gredydu, mae'r darparwr addysg uwch yn sicrhau nad yw cydnabod dysgu blaenorol yn gwrthdaro gyda'i delerau asesu lleiaf i gynnal safonau ar gyfer ei ddyfarniadau.

Cymru

Mae'r gofynion ar gyfer cyflawni prentisiaeth gradd i'w gweld yn y fframweithiau prentisiaeth. Bydd y rhain yn cynnwys cymhwyster gradd lefel 6 sy'n cael ei gydnabod gan gyflogwyr ar draws diwydiant neu ystod o ddiwydiannau. Bydd gofyn i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC sicrhau bod holl ofynion y fframwaith prentisiaeth berthnasol yn cael eu cyflawni.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr a'r sefydliad a gyllidir gan CCAUC fod yn glir y bydd gan y prentis unigol gyfle, yn y gweithle, i gwrdd â gofynion y fframwaith prentisiaeth o ran cymhwysedd. Bydd angen i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC fod yn eglur a gonest gyda'r cyflogwr a'r dysgwr am yr ymrwymadau y maent yn cofrestru ar eu cyfer gan gynnwys ymrwymiad i ryddhau'r cyflogai ar gyfer unrhyw hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

Pan fo'n berthnasol, disgwylir i'r sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gydnabod dysgu blaenorol, yn enwedig lle mae unigolion wedi gwneud prentisiaethau ar lefelau is. Bydd cyfle i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ddarparu cymwysterau atodol ar lefel 6 a fyddai'n fyrrach o ran eu hyd na'r Prentisiaethau Gradd llawn.

Nid oes gan y fframwaith ar gyfer Prentisiaethau Gradd yng Nghymru asesiad EPA ar wahân, ac mae cyflawniad y fframwaith cyffredinol wedi'i seilio ar asesiad o lwyddiant y cymhwyster ac ar gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl perthnasol yn y credyd a'r cymhwyster.

Yn gyson â disgwyliadau QAA ar gyfer asesu myfyrwyr a chydabod dysgu blaenorol yng Nghymru, bydd gofyn i Brentisiaethau Gradd gydymffurfio â disgwyliadau QAA o ran asesu darpariaeth a addysgir, ac o ran cydnabod dysgu blaenorol.

Gogledd Iwerddon

Nid oes gan y rhaglen Brentisiaeth Lefel Uwch yng Ngogledd Iwerddon asesiad EPA ar wahân, ac mae cyflawniad y fframwaith cyffredinol wedi'i seilio ar asesiad o lwyddiant y cymhwyster, ac ar asesiad o'r dysgu yn y gwaith drwy brosiect seiliedig ar waith ac e-bortffolio.

Arholi allanol

Mae arholi allanol yn rhan integrol a hanfodol o sicrhau ansawdd mewn addysg uwch. Mae'n un o'r prif ddulliau o gynnal y safonau academaidd ar draws y sector. Penodir arholwyr allanol i roi cyngor diduedd ac annibynnol i'r cyrff dyfarnu graddau, ac i roi sylwadau defnyddiol ar safonau'r corff dyfarnu graddau ac ar gyflawniad y myfyrwyr mewn perthynas â hwy.

Mae'r Cod Ansawdd yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch benodi arholwyr allanol ar gyfer pob rhaglen sy'n arwain at gymhwyster addysg uwch. Tynnir arholwyr o'r fath o addysg uwch, diwydiant, a/neu'r proffesiynau. Mae'n rhaid iddynt feddu ar y cymwysterau a'r profiad priodol mewn pwnc neu arbenigedd perthnasol, ac yn allanol i, ac yn annibynnol i benodiad y darparwr addysg uwch neu'r corff dyfarnu. Fel arfer, maent yn gweithio yn rhan o dimau arholi mwy mewn amrediad o raglenni.

Mae'r Cod Ansawdd yn ymatebol i'r angen am addasu dulliau arholi allanol fel y bo'n angenrheidiol er mwyn rhoi lle i addysg uwch sydd wedi'i hintegreiddio yn y gwaith, er enghraifft, sy'n cynnwys trosolwg neu reoliad gan gorff PSRB.

Wrth benodi arholwyr allanol ar gyfer prentisiaethau, disgwylir felly i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod y cymwysterau cywir gan yr holl arholwyr i wneud y rôl, a gallai hyn olygu, er enghraifft, eu bod yn meddu ar lefel briodol o arbenigedd ymarferol. Gellir sicrhau'r cydbwysedd gofynnol o arbenigedd ymarferol ac arbenigedd pwnc drwy benodi dau arholwr allanol, un yn arbenigwr pwnc a'r llall ag arbenigedd ymarferol.

Lloegr

Mae arholi allanol, sy'n nodwedd gyfarwydd o'r system addysg uwch, yn wahanol i'r Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA) sy'n rhan o'r drefn brentisiaethau (mae EQA yn derbyn sylw yn adran 3.7, monitro ac adolygu.)

Mae'r gofynion ar gyfer yr asesiad EPA, sydd wedi'u disgrifio yn y cynlluniau EPA, yn cynnwys sicrwydd bod y broses yn briodol o annibynnol. Bydd cynlluniau EPA yn nodi'r gofynion o ran Sicrwydd Ansawdd Allanol. O anghenraid, bydd cynlluniau EPA ar gyfer Prentisiaethau Gradd 'integredig' yn cynnwys cyfeiriad at arholwyr allanol, am fod yr asesiad EPA yn cael ei wneud fel rhan annatod o'r cymhwyster ac, felly, rhaid iddo fod o dan nawdd y system o arholwyr allanol annibynnol ym maes addysg uwch. Fodd bynnag, lle mae'r asesiad EPA wedi'i wneud gan gorff annibynnol ar wahân sy'n asesu'r canlyniadau terfynol (EPAO), ni fydd y darparwr addysg uwch a benodir gan arholwyr allanol i'r dyfarniad addysg uwch yn chwarae rôl uniongyrchol yn y broses EPA.

Mae darparwyr addysg uwch yn sicrhau bod arholwyr allanol yn derbyn cyfarwyddiadau priodol am natur benodol eu rôl ar gyfer prentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch. Bydd angen i hyn gynnwys: pennu a yw'r brentisiaeth yn cynnwys asesiadau EPA integredig neu rai ar wahân; y berthynas rhwng dyletswyddau a gwybodaeth/sgiliau/ymddygiad a chanlyniadau dysgu rhaglenni/modiwlau yn y brentisiaeth; y ffordd mae'r asesiad EPA yn cael ei weithredu ac unrhyw oblygiadau ar gyfer eu rôl; a sut mae'r cyfleoedd dysgu a ddarperir gan y rhaglen addysg uwch yn cael eu darparu yng nghyd-destun dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

Mae pob rhaglen prentisiaeth addysg uwch yn atebol i'r broses arholi allanol.

Yr Alban

Mae proses arholi allanol safonol y darparwr addysg uwch yn berthnasol i'r Prentisiaethau â Gradd. Mae arholwyr allanol yn darparu adborth allanol a gwrthrychol ar degwch a phriodoldeb prosesau'r darparwr addysg uwch ar gyfer asesu myfyrwyr ac felly maent yn ffurfio rhan integrol o'r trefnau adolygu a gwerthuso y mae'r darparwr yn eu defnyddio i sicrhau safonau academiaidd ei raglenni a'i ddyfarniadau. Canlyniad y gweithredu yma yw adroddiad blynyddol gan bob arholwr i hysbysu'r trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd.

Cymru

Mae'r prosesau yng Nghymru'n gyson gyda safonau QAA ar gyfer arholiadau allanol cyrff dyfarnu graddau. Bydd gofyn i Brentisiaethau Gradd gydymffurfio â safonau QAA ar gyfer arholi allanol er mwyn sicrhau eglurder ac atebolrwydd i'r cyhoedd.

Gogledd Iwerddon

Mae'r holl raglenni Prentisiaeth Lefel Uwch yn atebol i'r broses arholi allanol safonol ar gyfer addysg uwch.

3.4 Profiad y prentis

Un o ddibenion sylfaenol y Cod Ansawdd yw sicrhau ansawdd profiad y myfyrwyr. Mae wedi'i seilio ar yr angen i roi myfyrwyr wrth galon y system addysg uwch drwy, er enghraifft, drin pob myfyriwr yn deg a gydag urddas, cwrteisi a pharch, a rhoi cyfle i bob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr mewn prentisiaethau, gyfrannu at siapio eu profiad dysgu. Fodd bynnag, am fod cyflogwyr yn chwarae rôl yr un mor arwyddocaol mewn prentisiaethau mae'n bwysig bod darparwyr addysg uwch yn rheoli ac yn cymodi gofynion a galwadau'r prentisiaid a'r cyflogwyr fel ei gilydd.

Mae Disgwyliad y Cod Ansawdd mewn perthynas â chyfranogaeth myfyrwyr yn esbonio'n eglur bwysigrwydd cynnwys y myfyrwyr yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad dysgu.²² Mae'n nodi bod cyfranogaeth myfyrwyr mewn prosesau ansawdd yn cael dylanwad positif ar ddarpariaeth a datblygiad unrhyw agwedd o brofiad addysgol y myfyrwyr. Mae'r Cod Ansawdd hefyd yn tynnu sylw at y ffordd mae dysgu ac addysgu'n benodol ar eu mwyaf effeithiol pan fo partneriaeth rhwng y darparwr addysg uwch, ei staff a'i fyfyrwyr ac unrhyw randdeiliaid allanol eraill (gan gynnwys cyflogwyr) sy'n peri cyd-gynhyrchu a gwella darpariaeth ddysgu sy'n greadigol ac yn drawsffurfiannol.

Mae'r Cod Ansawdd yn cydnabod y gallai myfyrwyr fod â'u cyfrifoldebau eu hunain tuag at y sefydliad darparu a thuag at bobl eraill (megis cyflogeion sefydliadau eraill lle maent yn astudio), gan gynnwys y cyfrifoldeb i ateb y disgwyliadau a'r normau mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol yn y maes astudio neu waith penodol y maent yn gweithio ynddynt, a allai dderbyn sylw mewn contract cyflogaeth.

Bydd gan brentisiaid mewn addysg uwch hawliau ac iawnderau fel myfyrwyr (p'un a ydynt yn talu ffi ai peidio), a hawliau a dyletswyddau fel cyflogeion. Bydd y rheiny sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch yn llywio'r gwahanol hawliau a dyletswyddau hyn ac yn sicrhau bod modd eu halinio'n briodol.

Lloegr

Mae darparwyr addysg uwch yn cynnig ystod o wybodaeth i brentisiaid, yn cyfeirio at wasanaethau cymorth ac yn gwella'r profiad cyffredinol a'r gweithrediadau cyfathrebu rhwng y darparwr, y cyflogwr, y prentis ac unrhyw is-contractwr. Bydd gwybodaeth gywir ac amserol yn helpu i hysbysu'r gydberthynas rhwng hyfforddiant a dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith i sicrhau bod goruchwyliaeth, monitro ac adborth yn cefnogi'r prentis yn briodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad yw prentisiaethau'n dilyn y cylch blwyddyn academaidd safonol; dylid darparu cyfathrebiadau a gwybodaeth ar amser sy'n briodol i'r pwynt yn y brentisiaeth. Yn arbennig, elfen allweddol fydd sefydlu disgwyliadau clir ynghylch y trefniadau (gan gynnwys hyfforddiant) ar gyfer mentora yn y gweithle, ynghyd â'r gofynion sy'n ymwneud â'r hyfforddiant a'r dysgu i ffwrdd o'r gwaith.

O dan y diwygiadau diweddar i brentisiaethau, y cyflogwr, nid yr unigolyn, sy'n prynu hyfforddiant ar gyfer y brentisiaeth. Mae hyn yn golygu bod gan ddarparwyr prentisiaethau gyfrifoldebau deuol tuag at y cyflogwyr a thuag at y prentisiaid. Fodd bynnag, nid yw'n disodli cyfrifoldebau'r darparwyr addysg uwch am sicrhau ansawdd profiad y prentisiaid fel myfyriwr addysg uwch. Yn hytrach, mae'n rhaid i anghenion myfyrwyr gael eu cydbwysu gydag anghenion cyflogwyr. O ystyried hynny, rhaid bod yn ofalus wrth gynllunio rhaglenni ac amserlennu gweithgareddau asesu i sicrhau bod yna gydnabyddiaeth i gydbwysedd priodol rhwng gwaith/astudio/bywyd.

²² Gwelwch Bennod B5: www.qaa.ac.uk/quality-code/the-existing-uk-quality-code/part-b-assuring-and-enhancing-academic-quality.

Ymhellach, dylid rhoi ystyriaeth nid yn unig i gylchoedd gwaith academiaidd, ond i gylchoedd gwaith y cyflogwr a allai effeithio ar allu prentisiaid i astudio'n effeithiol.

Mae'r Datganiad Ymrwymiad a lofnodir gan ddarparwyr, cyflogwyr a phrentisiaid yn nodi'r hyn a ddisgwylir ac a gynigir gan y cyflogwr, y darparwyr addysg uwch (ac unrhyw is-gontractwyr) a'r prentis wrth gyflawni'r brentisiaeth a gallai gael ei ddefnyddio i ddarparu rhywfaint o eglurder am y ffordd y gellir sicrhau ansawdd profiad y prentis, gan hefyd ateb anghenion y cyflogwyr. Dylai'r datganiad hefyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC).

Mae'r angen i geisio ac ymateb i adborth gan y myfyrwyr/prentisiaid yn parhau'n bwysig yng nghyd-destun darparu prentisiaethau. Am fod prentisiaethau'n cael eu cynnig drwy ystod a chyfuniad o ddulliau darparu, bydd darparwyr addysg uwch yn ystyried ymhle, o fewn eu strwythurau ymgynghorol ac anymgynghorol, mae cyfleoedd yn ddigon hyblyg i gipio llais y prentis er mwyn caniatáu cyfleoedd i hwyluso adborth am brofiad y prentis a gwella'r cyfleoedd dysgu. Efallai na fydd y cyfleoedd sy'n bodoli'n hygyrch iawn i brentisiaid oherwydd ymrwymadau yn y gweithle. Mae defnyddio technoleg i alluogi cyfranogaeth mewn pwyllgorau a chyfrannu at arolygon yn gallu lliniaru rhai o'r problemau hyn, er bod angen cynllunio ac amserlennu arolygon yn ofalus er mwyn osgoi 'syrffed ar arolygon'.

Mae sicrhau ansawdd profiad y myfyrwyr hefyd yn golygu ceisio, ac ymateb i, adborth gan gyflogwyr. Dylai darparwyr addysg uwch ddarparu cyfleoedd i gael adborth gan gyflogwyr ac i bennu camau a gymerwyd i ymateb i'r adborth hwnnw. Gellir darparu gwybodaeth berthnasol i helpu i hysbysu dewisiadau darpar brentisiaid a chyflogwyr.

Yr Alban

Mae'r dulliau o gynllunio, darparu ac asesu prentisiaethau wedi'u bwriadu i adlewyrchu trefniant cydweithredol rhwng y darparwr addysg uwch, y cyflogwr a'r prentis. Er nad yw'r cyflogwr yn contractio'n ffurfiol gyda'r darparwr addysg uwch, mae ei waith partneriaeth, y gwelir yr esiampl orau ohono drwy'r fframwaith safonol a'r gofynion o ran dysgu seiliedig ar waith, yn cydnabod yr angen i gefnogi anghenion unigol y prentis yn ogystal â'r cyflogwr perthnasol. Mae hyn wedi'i esbonio drwy'r cynlluniau hyfforddi a dysgu unigol.

Fel myfyriwr addysg uwch cofrestredig, byddai gan y prentis fynediad at yr un cyfleusterau â myfyrwyr eraill y darparwr addysg uwch, gan werthfawrogi y gallai prentisiaid ryngweithio'n wahanol gyda'r gwasanaethau hyn.

Bydd darparwyr addysg uwch yn gweithio gyda'r cyflogwr i benderfynu sut y bydd gwybodaeth am wasanaethau cymorth a'u hygyrchedd yn cael eu darparu. Gallai ystyriaeth o'r fath gael ei amlinellu drwy Gytundeb Myfyriwr.

Mae'r darparwyr addysg uwch yn gweithio'n agos gyda'r cyflogwr yn rhan o'r broses recriwtio, dethol a derbyn er mwyn sicrhau bod gan brentisiaid ddigon o gyfle i ddatblygu a chyflawni. Mae rolau a chyfrifoldebau'r cyflogwyr a'r darparwr addysg uwch wedi'u hesbonio'n glir mewn fframweithiau prentisiaeth perthnasol a gofynion perthnasol o ran dysgu seiliedig ar waith sy'n helpu i sicrhau profiad y prentis.

Cymru

Mae profiad y myfyrwyr wrth galon darpariaeth addysg uwch yng Nghymru, ac nid yw'r Prentisiaethau Gradd yn eithriad i hynny. Bydd angen i Undebau Myfyrwyr sicrhau eu bod yn gallu cynrychioli llais y myfyrwyr hyn yn rhan o'r corff myfyrwyr amrywiol. Bydd angen sefydlu dulliau priodol o gynrychioli'r myfyrwyr hefyd.

Bydd angen i brentisiaid ar Brentisiaethau Gradd allu defnyddio'r ystod lawn o wasanaethau a chefnogaeth y mae'r sefydliad a gyllidir gan CCAUC yn eu cynnig i'w fyfyrwyr. Am fod y myfyrwyr hyn yn gyflogedig hefyd, efallai y bydd raid i'r sefydliad ystyried sut y gellir cyflawni hygyrchedd. Efallai hefyd y bydd angen i sefydliadau amrywio'r modelau darparu sydd ganddynt ar waith (er enghraifft, dysgu o bell, rhyddhau mewn bloc, rhyddhau am ddiwrnod) er mwyn ateb anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Gogledd Iwerddon

Mae'r holl ddarparwyr hyfforddiant yng Ngogledd Iwerddon yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr a chyrff myfyrwyr i sicrhau bod y cyfranogwr yn derbyn cefnogaeth lawn yn ystod yr elfennau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn y rhaglen Brentisiaeth Lefel Uwch.

Gwneir arolwg electronig blynyddol gyda'r cyfranogwyr i gael eu sylwadau am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a pha bryderon sydd ganddynt, a llunnir cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau.

3.5 Rheoli darpariaeth gydag eraill

Fel y nodwyd yn adran 3.1 (Cyfrifoldebau darparwyr addysg uwch, cyflogwyr, prentisiaid ac eraill) i gynllunio a darparu prentisiaethau mae angen cyfranogaeth amrywiaeth o gyrff a sefydliadau, gan gynnwys cyflogwyr, darparwyr addysg uwch, ac mewn llawer o achosion, sefydliadau darparu eraill a/neu gyrff PSRB eraill. Yn y cyd-destun hwn, mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw'r cyfrifoldeb pennaf am ansawdd a safonau unrhyw ddarpariaeth sy'n arwain at ddyfarniad addysg uwch. Yn y cyfamser, gallai cyrff dyfarnu graddau a darparwyr addysg uwch eraill fod ag ymrwymïadau cytundebol tuag at y cyflogwyr y maent yn gweithio gyda hwy i ddarparu prentisiaethau, yn ogystal â thuag at y cyrff sy'n ariannu'r prentisiaethau hynny neu'n eu cefnogi mewn ffordd arall a thuag at y prentisiaid sy'n eu gwneud nhw.

Mae'r Cod Ansawdd yn nodi'n glir bod yr amrywiaeth o drefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill sy'n bodoli ym maes addysg uwch, gan gynnwys modelau prentisiaeth, yn cyflwyno amrediad o fanteision a chyfleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, lwybrau mynediad hyblyg a allai ehangu mynediad, arbenigedd a chyfleusterau ychwanegol, a chwricwla sy'n berthnasol i arferion gweithio cyfoes ac anghenion y cyflogwyr a'r gweithwyr. Mae hefyd yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd a safonau a allai ddod law yn llaw â darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill, gan nodi bod trefniadau sy'n chwalu'n gallu creu anawsterau i fyfyrwyr, a niweidio enw da'r cyrff a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, ac enw da addysg uwch y DU yn gyffredinol.

O ganlyniad, mae'r Cod Ansawdd yn argymhell dull o reoli trefniadau sy'n ystyried risgiau, dull sy'n sicrhau bod yr ymdrech a fuddsoddir yn gymesur gyda chymhlethdod y cydweithrediad arfaethedig, statws y sefydliad darparu neu'r darparwr cymorth, lefel y profiad sydd gan y corff dyfarnu graddau, a'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda phob un o'r rhain. Derbynnir nad yw agwedd 'un maint i bawb' yn ddigonol yma ac y bydd darparwyr addysg uwch yn datblygu a chymeradwyo ystod o wahanol arferion a gweithdrefnau sydd wedi'u teilwra ac sy'n gymesur â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cydweithrediad y maent yn ei gynllunio.

Mae'n tynnu sylw yn arbennig at y ffaith y dylai diwydrwydd dyladwy a'r cytundebau ffurfiol sy'n cael eu mabwysiadu ar gyfer unrhyw un trefniant fod yn gymesur â maint, cymhlethdod a natur y gweithgaredd, yn gymesur â'r math o sefydliad darparu neu'r darparwr cymorth perthnasol, ac yn gymesur â'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r Cod Ansawdd yn glir bod modd i ddarparwyr addysg uwch fod yn hyblyg wrth gynllunio a gweithredu prosesau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd i sicrhau bod y rhain yn briodol

i'r gwahanol amserlenni a chyd-destunau y gallent weithredu oddi mewn iddynt, ac sy'n gallu cefnogi'r rôl ganolog y mae cyflogwyr yn ei chwarae mewn prentisiaethau. Gellir cyflawni hyn heb danseilio'r egwyddorion eang sy'n tanategu sicrhau ansawdd a safonau academaidd.

Lloegr

Tanategir trefniadau ar gyfer darparu ac asesu prentisiaethau gan gytundebau ysgrifenedig (contractau) rhwng y darparwr addysg uwch a'r cyflogwr. Mae cytundebau ysgrifenedig (contractau) o'r fath yn sefydlu disgwyliadau clir am y rôl/rolau y bydd cyflogwyr yn ei/eu chwarae i gefnogi dysgu a hyfforddi'r prentis ac i adlewyrchu rheoliadau a gofynion llywodraethol y Sefydliad Prentisiaethau a'r ESFA. Mae'n rhaid iddynt gyfeirio at: gyfnewid gwybodaeth mewn perthynas â'r prentis, yn unol â'r RhDDC; sicrhau ansawdd a chyfrifoldebau perthnasol bob parti; ynghyd â gweithdrefnau i ddatrys anghydfodau a chyfeiriad at ganllawiau i gyrff EPA. Gallent gynnwys agweddau megis mynediad i adnoddau'r cyflogwr wrth gymryd rhan mewn dysgu i fwrdd o'r gwaith a threfniadau ar gyfer mentora yn y gweithle, megis ymsefydlu, hyfforddiant, cyfathrebiad rhwng cyflogwyr a darparwyr, cymryd rhan mewn asesiadau EPA a phrotocolau ar gyfer ymdrin

â phroblemau. Yn ogystal, mae'n fanteisiol nodi'r trefniadau ar gyfer integreiddio hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, megis pennu prosiectau gwaith perthnasol, a threfniadau ar gyfer cynnwys cyflogwyr mewn prosesau o werthuso, monitro a gwella rhaglenni addysg uwch i gael eu ffurfioli mewn cytundebau ysgrifenedig. Mae'n ddefnyddiol sicrhau bod templedi ar gael ar gyfer contractau neu is-gontractau, fel bod modd eu haddasu i ateb anghenion bob prentisiaeth a phob cyflogwr. Mae templed defnyddiol ar gyfer cytundeb (contract) ysgrifenedig ar gael gan Gyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Prifysgolion (UVAC)²³; mae canllaw ynghylch is-gontractio'n cael ei ysgrifennu gan grŵp dan arweiniad Cymdeithas y Colegau.²⁴

Argymhellir y dylid cael ymgysylltiad cynnar a thrafodaeth am gynnwys y cytundeb (contract) ysgrifenedig a disgwyliadau'r cyflogwr, er mwyn osgoi oedi wrth gychwyn y brentisiaeth, os nad yw'r cytundeb (contract) ysgrifenedig yn ei le. Yn ystod trafodaethau o'r fath, dylai'r darparwr addysg uwch benderfynu a oes gan y cyflogwr ddigon o gapasiti a chyfleoedd i gefnogi'r prentis yn y gweithle er mwyn bodloni gofynion y safon ac hefyd a oes angen unrhyw gefnogaeth bellach.

Gallai darparwyr addysg uwch hefyd benderfynu ar gytundebau gydag is-gontractwyr²⁵ i ddarparu rhan o'r brentisiaeth, neu'r brentisiaeth gyfan. Lle mae graddfa'r ddarpariaeth a wneir gan is-gontractwyr dros £100k, bydd angen i'r sefydliad ar is-gontract gael ei restru ar y gofrestr RoATP hefyd.²⁶ Mae trefniadau'r darparwr addysg uwch ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a ddarperir yn ei enw yr un mor berthnasol i brentisiaethau sy'n cynnwys addysg uwch.

Dylai darparwyr addysg uwch ddarparu cefnogaeth i gynghori ac arwain cyflogwyr ar ddefnyddio'r gweithle'n effeithiol fel amgylchedd i ddysgu ynddo. Bydd hyn yn cynnwys darparu datblygiad staff, hyfforddi mentoriaid a, lle bo'n briodol, aseswyr yn y gweithle yn ogystal â darparu gwybodaeth ac ymsefydliad i reolwyr llinell a staff eraill sy'n gweithio gyda'r prentis. Drwy weithio mewn partneriaeth agos â'r cyflogwr mae'n eu galluogi i sicrhau'r budd gorau o ddarparu cyfleoedd dysgu i brentisiaid i'r sefydliad a thrwy hynny mae'n galluogi i'r prentis gael profiad gweithio ac astudio mwy cyfannol ac ystyrlon.

Elfen allweddol o gefnogi prentisiaid yn y gweithle yw rôl y mentor yn y gweithle. Dylid esbonio'r meini prawf ar gyfer dewis mentoriaid yn eglur er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cefnogi'r prentis yn y gweithle'n llawn a hwyluso eu dysgu. Mae'r darparwr addysg uwch yn gyfrifol am sicrhau bod y mentoriaid yn cael eu hymsefydlu'n briodol yn eu rôl gan y darparwr addysg uwch er mwyn gallu gwneud y rôl; mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant mewn annog a mentora, am ddarparu cipolwg ar y ffordd mae pobl yn dysgu yn y gweithle a throsolwg o strwythur a dulliau asesu'r rhaglen. Dylai rôl y mentor yn y gweithle gael ei gefnogi bob amser gan diwtor addysg uwch. Er nad oes angen i'r rhaglen yma arwain at gymhwyster, mae'n hanfodol bod y berthynas fentora, os ydyw'n mynd i allu hyrwyddo dysgu'r prentis yn effeithiol yn y gwaith, yn atebol i broses sicrhau ansawdd gan y darparwr addysg uwch.

Mae'r berthynas rhwng darparwyr addysg uwch a chyrrff asesu canlyniadau terfynol sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer cynnal asesiadau EPA yn gofyn hefyd bod cytundebau ffurfiol yn eu lle. O dan y rheoliadau presennol, mae'r cyflogwr yn gyfrifol am ddewis y corff EPA, ond unwaith y mae wedi'i ddewis mae'n hanfodol bod contract yn ei le rhwng y corff EPA a'r darparwr addysg uwch er mwyn cynnal asesiadau EPA (pan na fo'r asesiad EPA wedi'i integreiddio o fewn y brentisiaeth gradd). Bydd angen i'r darparwr gysylltu'n agos â'r corff EPA a'r cyflogwr i sicrhau bod y prentisiaid yn gwbl barod ar gyfer yr asesiad EPA.

²³ Gwelwch www.uvac.ac.uk

²⁴ Bydd y manylion wedi'u cyhoeddi ar wefan QAA pan fydd y ddogfen hon ar gael.

²⁵ Gwelwch www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-funding-and-performance-management-rules-2017-to-2018 a https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/698909/Subcontracting_guidance.pdf

²⁶ Nodwch: Mae £100k yn ymwneud ag ymrwymiad cyfan yr is-gontractwr i ddarparu prentisiaethau, i bob cydran unigol.

Mae'n bosibl y bydd rhai elfennau o ddarpariaeth ac asesiad y brentisiaeth yn cael eu his-gontractio i drydydd parti. Gallai hwn, er enghraifft, fod yn ddarparwr arbenigol neu'n ddarparwr sy'n gyflogwr, sydd eisiau darparu rhan o'r rhaglen. Mewn achosion o'r fath, mae angen cytundeb is-gontractio, sy'n nodi'n glir gyfrifoldebau bob parti ac yn amlinellu'r prosesau sicrhau ansawdd y mae'n rhaid eu dilyn. Mae'r darparwr addysg uwch yn parhau'n gyfrifol yn y pen draw am ansawdd a safonau'r ddarpariaeth ar draws holl ddarpariaeth y rhaglen ac mae'n rhaid cael mecanweithiau cadarn i fonitro darpariaeth gan drydydd parti.

Gall y trefniadau rhwng cyflogwyr, darparwyr ac is-gontractwyr fod yn gymhleth a rhaid cymryd gofal i ddiogelu sefydlogrwydd a diogelwch y trefniadau hyn er budd y prentisiaid. Er enghraifft, lle mae cyflogwr naill ai'n ddarparwr sy'n gyflogwr neu lle mae ganddo/ganddi gytundeb gyda darparwr nad yw'n cynnig addysg uwch i weithio ar draws ystod o'i ddarpariaeth prentisiaeth, efallai y bydd y darparwr sy'n gyflogwr neu'r prif ddarparwr ar gontract eisiau is-gontractio gyda darparwr addysg uwch. Mewn achos fel yma, mae'n hanfodol bod gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy'n cael eu gweithredu i sicrhau bod y trefniadau contractio rhwng y partion yn cydymffurfio gyda rheolau cyllido'r ESFA. Bydd hyn yn lliniaru'r risg sylweddol o effaith negyddol ar brofiad dysgu'r prentisiaid os oes angen i'r trefniadau darparu newid.

Lle mae dyfarniad addysg uwch wedi'i gynnwys, bydd y prentisiaid yn ymgysylltu mewn ystod o systemau neu drefnau'r sefydliad addysg uwch neu'r coleg addysg bellach. Mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae cytundebau prentisiaeth yn rhyngweithio â chontractau gyda myfyrwr a allai fod yn eu lle neu sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaid ac i ddiogelu buddiannau'r prentis fel dysgwyr addysg uwch.

Lle mae prentisiaeth uwch neu brentisiaeth gradd hefyd yn arwain at gydnabyddiaeth gan gorff PSRB, efallai y bydd angen cael cytundebau ffurfiol rhwng y darparwr addysg uwch a'r corff PSRB.

Yr Alban

Mae'r gydran ddysgu seiliedig ar waith o brentisiaethau addysg uwch yn rhan arwyddocaol a chanolog o'r dyfarniad cyfan. Mae sefyllfa waith y prentis felly'n ganolog i'r broses o roi'r dysgu yn ei gyd-destun ac asesu'r dyfarniad. Mae sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd wedi'u hintegreiddio drwy gydol y rhaglenni.

Mae Prentisiaethau â Gradd (ar lefelau 8 i 11 SCQF) wedi'u hadeiladu ar bartneriaeth rhwng cyflogwyr, prifysgolion a cholegau ac maent yn cynnwys ymgysylltiad parhaus cyflogwyr ym mhrosesau darparu a chefnogi'r rhaglen ac yn ei hasesiad ffurfiannol ohoni. Mae cyflogwyr hefyd yn cymryd rhan yn yr amrediad o systemau a phrosesau sicrhau ansawdd.

Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i bennu ac ateb anghenion sgiliau Cymru. Datblygwyd cynrychiolaeth o'r sector addysg uwch ar bob un o'r grwpiau rhanbarthol hynny o fewn dull integredig CCAUC o gynllunio ar lefel ranbarthol. Mae hyn yn cynnig y cyfle i sectorau addysg uwch a dysgu seiliedig ar waith gydweithio â'i gilydd er mwyn ateb anghenion y cyflogwyr orau ac osgoi cystadlu dibwys.

Mae sefydliadau a gyllidir gan CCAUC wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu prentisiaethau lefel uwch gydag ymrwymiad i wella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal drwy lwybrau dysgu hyblyg. Byddai hyn yn cynnwys graddau atodol, gan gryfhau'r llwybrau i symud ymlaen at y Brentisiaeth Gradd a ddarperir. Anogir sefydliadau a gyllidir gan CCAUC hefyd i gynnig darpariaeth drwy ddarparwyr eraill, lle mae'n ateb anghenion y cyflogwr a'r prentis orau.

Gogledd Iwerddon

Mae'r rhaglen Brentisiaeth Lefel Uwch yn gofyn cydweithrediad rhwng y chwe choleg addysg bellach a'r tri sefydliad addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu dull wedi'i uno sy'n sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth ddysgu a hyfforddi, y strwythurau cefnogi yn y gwaith a'r llwybrau dilyniant oll yn gyson.

Bydd y darparwyr hyfforddiant, y cyflogwyr a'r prentis yn llofnodi Cytundeb Tairochrog sy'n sefydlu'n glir yr hyn y disgwylir i rôl bob parti ei chwarae yn y ddarpariaeth. Nid oes asesiad EPA, mae asesiad parhaus yn rhan o'r rhaglen gyfan.

3.6 Cwynion ac apeliadau

Yn ôl y Cod Ansawdd, gofynnir i ddarparwyr addysg uwch gael gweithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd. Yn fras, mae prentisiaid sy'n gwneud prentisiaeth a ddarperir gan ddarparwr addysg uwch yn fyfyrwyr i'r darparwr addysg uwch hwnnw. Felly, dylai'r prentisiaid allu troi at brosesau'r darparwr ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr yn union fel y gall myfyrwyr eraill.

Yn ogystal, mae'r Cod Ansawdd yn nodi bod darparwr addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU yn parhau'n gyfrifol am ansawdd a safonau academaidd y cymwysterau addysg uwch y mae'n eu dyfarnu, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y rhaglen. Felly, y darparwr addysg uwch sy'n dyfarnu'r cymhwyster addysg uwch yn y trefniant prentisiaeth ddylai weithredu cam olaf y broses apeliadau academaidd ynghylch y cymhwyster hwnnw bob tro. Dylai hefyd weithredu cam olaf y broses gwyno os yw'r gŵyn am safonau neu ansawdd academaidd profiad dysgu'r prentis fel myfyriwr y darparwr hwnnw.

Os yw'r prentis wedi gweithredu prosesau mewnol y darparwr addysg uwch (ac, os bydd yn berthnasol, y cyflogwr) ar gyfer cwynion ac apeliadau hyd y pen eithaf, efallai y cânt ddefnyddio prosesau allanol; mae hyn yn amrywio rhwng y gwledydd.

Cymru a Lloegr: Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

Fel arfer, mae'r darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr yn aelodau o'r cynllun annibynnol ar gyfer cwynion ym maes addysg uwch yng Nghymru a Lloegr, a weithredir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Gall prentis sy'n dilyn prentisiaeth uwch neu brentisiaeth gradd, fel myfyriwr addysg uwch, gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol am y darparwr addysg uwch sy'n darparu eu prentisiaeth yn yr un ffordd â myfyrwyr addysg uwch eraill.

Gall Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ystyried cwynion am unrhyw beth y mae aelod o ddarparwr addysg uwch wedi'i wneud neu heb ei wneud, ond fel arfer mae'n ofynnol bod y darparwr wedi cael cyfle i ystyried y gŵyn yn gyntaf. Ni all Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu cwynion am faterion cyflogaeth myfyrwyr. Os ceir cwynion gan brentisiaid, byddai Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ystyried pa agweddau o gŵyn sy'n berthnasol i brofiad y prentis fel myfyriwr a pha rai sy'n berthnasol i'w cyflogaeth. Mae gwefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol²⁷ yn rhoi rhagor o wybodaeth am ei rôl a'i chylich gwaith.

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol wedi cyhoeddi'r Fframwaith Arfer Da,²⁸ sy'n cynnwys arweiniad ynglŷn â sut i ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yn effeithiol, gan gynnwys yng nghyd-destun darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill.²⁹ Mae'r egwyddorion cyffredinol yn yr arweiniad yn berthnasol i ymdrin â chwynion ac apeliadau yng nghyd-destun prentisiaethau a, maes o law, bydd yr arweiniad yn cael ei ehangu i ymdrin yn fanylach â'r maes hwnnw.

Yn Lloegr, mae'r Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) yn cyhoeddi canllawiau am brentisiaethau i'r sector, ac efallai y bydd prentisiaid hefyd yn gallu cwyno i'r ESFA am ddarparwyr hyfforddiant prentisiaeth.

Yr Alban

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (SPSO)³⁰ yw'r cam olaf ar gyfer cwynion am golegau a phrifysgolion yn yr Alban (gwelwch ragor o wybodaeth isod).

²⁷ Gwelwch www.oiahe.org.uk

²⁸ Gwelwch www.oiahe.org.uk/providers-and-good-practice/good-practice-framework.aspx

²⁹ Gwelwch www.oiahe.org.uk/providers-and-good-practice/good-practice-framework/delivering-learning-opportunities-with-others.aspx

³⁰ Gwelwch www.spsso.org.uk/college-or-university-complaints

Gogledd Iwerddon

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (NIPSO)³¹ yn darparu adolygiad annibynnol o gwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys colegau addysg bellach a phrifysgolion (gwelwch ragor o wybodaeth isod).

Lloegr

Gallai'r broses o ddarparu Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd gynnwys trefniadau cytundebol cymhleth.

Yn Lloegr, gallai'r darparwr addysg uwch weithredu fel y prif ddarparwr yn y drefn, gan dynnu'r arian ESFA neu'r ardoll i lawr. Mae'r prif ddarparwr yn gyfrifol am reoli'r brentisiaeth yn effeithiol a bydd y Datganiad Ymrwymiad tair ffordd rhwng y cyflogwr, y darparwr a'r prentis yn nodi eu hawliau a'u dyletswyddau perthnasol. O dan reolau cyllido'r ESFA, mae'n rhaid i'r Datganiad gynnwys manylion proses gwyno'r darparwr.

Ar y llaw arall, gall y darparwr addysg uwch fod ar is-gontract i'r prif ddarparwr i ddarparu agweddau o'r brentisiaeth, megis y cymhwyster addysg uwch. Bydd y contract rhwng y prif ddarparwr a'r darparwr addysg uwch yn nodi beth fydd cyfrifoldebau'r darparwr addysg uwch o dan y trefniant prentisiaeth. Yn unol â'r Cod Ansawdd, bydd darparwr addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU yn gyfrifol am safonau ac ansawdd academiaidd y cymhwyster y mae'n ei ddyfarnu, beth bynnag fo'i drefniadau cytundebol gyda'r prif ddarparwr.

Yn y ddwy sefyllfa, mae'r prentisiaid yn fyfyrwyr i'r darparwr addysg uwch a dylent allu defnyddio gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer cwynion ac apeliadau academiaidd gan fyfyrwyr fel y gwna'r myfyrwyr eraill. Gall y prentis gwyno i'r darparwr addysg uwch am unrhyw beth sy'n rhan o gyfrifoldeb y darparwr hwnnw o dan y trefniant prentisiaeth neu o dan ofynion y Cod Ansawdd (yn ychwanegol at hysbysu'r prif ddarparwr ymhle mae trefniadau is-gontract hysbys ar waith).

Rhaid i bob safon prentisiaeth gael Aseiad o'r Canlyniad Terfynol (EPA). Gallai Prentisiaethau Gradd gynnwys aseiad EPA 'integredig' o fewn y Safon, ac os felly bydd y darparwr addysg uwch yn cynnal yr aseiad EPA fel rhan annatod o'r radd. Ymhob achos arall, bydd y prif ddarparwr yn mynd i gontract gyda chorff asesu annibynnol (o'r gofrestr RoEPAO) i ddarparu'r aseiad EPA ac ni fydd gan y prentis fel arfer berthynas gytundebol uniongyrchol gyda'r corff asesu canlyniadau terfynol.

Os bydd y prentis eisiau cwyno am aseiad EPA 'anintegredig' neu am y corff asesu annibynnol, bydd eu cwyn fel arfer yn cael ei chyfeirio at eu cyflogwr neu at y prif ddarparwr yn y trefniant prentisiaeth, yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, lle mae'r corff asesu'n ddarparwr addysg uwch a lle mae'r aseiad EPA yn 'ddyfarniad' gan y darparwr hwnnw, gall y prentis ddefnyddio prosesau cwyno ac apelio ar gyfer myfyrwyr y darparwr ac wedi hynny gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os yw'r darparwr addysg uwch yn aelod o Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. (Gall Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ystyried cwynion gan rywun sy'n gwneud cwrs astudio yn arwain at roi dyfarniadau un o'i haelodau.) Bydd llawer yn dibynnu ar y ffordd y mae'r aseiad EPA wedi'i strwythuro.

Mae prentisiaethau'n cael eu cynllunio a'u harwain gan gyflogwyr ac mae'n rhaid i anghenion y prentisiaid, wrth gwrs, gael eu cydbwysu gydag anghenion y cyflogwyr. Bydd y trefniadau rhwng y cyflogwr a'r prif ddarparwr yn nodi sut y bydd cwynion am y cyflogwr yn cael eu trin.

³¹ Gwelwch www.nipso.org.uk/nipso

Efallai y bydd prosesau mewnol y darparwr addysg uwch yn caniatáu i gyflogwr gyflwyno cŵyn neu apêl academaidd ar ran un neu fwy o'u prentisiaid, gan weithredu fel cynrychiolydd iddynt. Fodd bynnag, dydy hynny ond yn briodol pan fydd y broblem neu'r pryder yn rhywbeth sydd wedi effeithio ar y prentis/prentisiaid unigol, ac maent yn cefnogi'r gŵyn neu'r apêl. Y ffordd orau o drin dadleuon sy'n codi o'r trefniadau masnachol rhwng y cyflogwr a'r darparwr addysg uwch, ac nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y prentis/prentisiaid, yw drwy'r trefniadau hynny, er enghraifft drwy gyflafareddiad neu drwy'r llysoedd.

Mae'n bwysig bod polisïau'r darparwr addysg uwch yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws ei gorff myfyrwyr ac nad yw myfyrwyr sy'n brentisiaid yn derbyn triniaeth wahanol.

Yr Alban: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban yn ystyried cwynion gan y bobl hynny sy'n parhau'n anfodlon gyda phenderfyniadau sefydliadau addysg uwch yn dilyn ymchwiliad. Mae'r Ombwdsmon yn edrych ar faterion megis methiant y gwasanaeth a gweinyddu gwael yn ogystal â'r ffordd y mae'r sefydliad wedi ymdrin â'r gŵyn.

Yr Ombwdsmon yw'r cam olaf ar gyfer cwynion am wasanaethau cyhoeddus yn yr Alban. Mae hyn yn cynnwys cwynion am brifysgolion yn yr Alban. Os bydd yr unigolion yn parhau'n anfodlon gyda'r brifysgol ar ôl ei phroses gwyno, gellir gofyn i'r Ombwdsmon edrych ar y gŵyn. Ni all yr Ombwdsmon fel arfer edrych ar gwynion:

- "os nad ydych wedi mynd yr holl ffordd drwy drefn y Brifysgol ar gyfer ymdrin â chwynion
- fwy na 12 mis ar ôl i chi ddod i wybod am y mater yr ydych eisiau cwyno amdano, neu
- gwynion sydd wedi cael eu cymryd i'r llys neu sy'n derbyn ystyriaeth yn y llys."

Nodwch: cymerwyd o wefan Prifysgol Dundee.³²

Cymru

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cyllido ac yn rheoleiddio sefydliadau sy'n dyfarnu graddau yng Nghymru. Mae'r rhain yn gyrff annibynnol ac ymreolaethol yn ôl y gyfraith y mae gan bob un eu trefnau cwyno ac apelio eu hunain, gan gynnwys ar faterion o berfformiad academaidd a chwynion yn erbyn staff unigol. Dylai achwynwyr gyflwyno eu cwynion yn uniongyrchol i'r sefydliad perthnasol, yn unol â gweithdrefnau mewnol y sefydliad ei hun.

Mae Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd yn rheoli'r berthynas rhwng CCAUC a'r sefydliadau y mae'n eu cyllido. Mae hyn yn nodi'r drefn ar gyfer cwyno am amodau a thelerau sy'n berthnasol i'r gofynion a ganlyn:

- y posibilrwydd bod sefydliadau a gyllidir wedi torri amodau Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd
- bod sefydliad a reoleiddir wedi methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol
- bod sefydliad a reoleiddir wedi methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â Chynllun Mynediad a Ffioedd (lefelau ffi a gofynion cyffredinol y Cynllun)

³² Gwelwch www.dundee.ac.uk/governance/dca/complaints/ombudsman

- bod yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir o ansawdd annigonol, neu ansawdd sy'n debygol o ddod yn annigonol
- methiant gan Gorff Addysg Uwch Perthnasol i gyflawni ei ddyletswydd Prevent, sydd wedi'u hamlinellu isod.

Gall swyddogion CCAUC archwilio a chymryd camau priodol lle derbynir cwynion nad yw gofynion y Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd yn cael eu cyflawni gan sefydliad, ond ni all CCAUC ymwneud â chwynion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag un neu fwy o'r meysydd hyn.

Gogledd Iwerddon: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon

Mae'n bosib y bydd prentisiaid sy'n dilyn Prentisiaethau Lefel Uwch, fel myfyrwyr addysg uwch, yn gallu cwyno i'r Ombwdsmon am eu darparwr addysg uwch. Fel arfer, bydd disgwyl i'r prentis ddefnyddio pob un o brosesau mewnol eu darparwr ei hun, cyn cymryd cwyn at yr Ombwdsmon.

3.7 Monitro ac adolygu

Mae Cod Ansawdd y DU yn nodi bod monitro ac adolygu rhaglenni'n brosesau hanfodol sy'n ffurfio rhan o drefn fewnol y darparwr addysg uwch ar gyfer sicrhau ansawdd. Trwy fonitro ac adolygu rhaglenni'n rheolaidd gellir sicrhau bod y darparwr wedi cynnig cyfleoedd dysgu priodol i brentisiaid a'i fod yn parhau i wneud hynny. Gan y darparwr addysg uwch y mae'r cyfrifoldeb pennaf am fonitro ac adolygu rhaglenni ond, yn debyg i achos y prentisiaethau, os bydd yr amgylchedd hyfforddi a dysgu ar fwy nag un safle ac y bydd sefydliadau eraill yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio, darparu ac asesu rhaglenni, hynny yw, y cyflogwr, y mentoriaid yn y gweithle, yr is-gontractwyr, ac ati, bydd angen i'r darparwr addysg uwch sicrhau bod ei brosesau'n caniatáu cyfranogaeth gan bob parti perthnasol.

Efallai y bydd gofyniad hefyd am fonitro ac adolygu'n allanol; dylai darparwyr sicrhau fod pawb sy'n cymryd rhan ym mhrofiadau dysgu a hyfforddi'r prentisiaid wedi'u cynnwys yn y prosesau hynny.

Lloegr

Mae'r gwaith o fonitro ac adolygu prentisiaethau yn Lloegr yn disgyn ar ysgwyddau nifer o bartïon, sydd wedi'u cynrychioli yn y Gynghrair Ansawdd (gwelwch adran 3.1 Cyfrifoldebau darparwyr addysg uwch, cyflogwyr, prentisiaid ac eraill).

Am fod gan y darparwr addysg uwch y cyfrifoldeb pennaf am ei ddarpariaeth hyfforddiant prentisiaeth (fel aelod o'r gofrestr RoATP), am yr addysg uwch sy'n rhan ohono (fel darparwr addysg uwch) ac am ei ddyfarniadau (fel corff dyfarnu graddau) mae'n cadw'r cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd yr hyfforddiant a'r dyfarniadau'n fewnol sy'n rhan o unrhyw brentisiaeth uwch neu brentisiaeth gradd. Bydd angen i'r darparwr sicrhau bod ei brosesau'n cynnwys cyfraniad gan bob un o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn darparu'r brentisiaeth ac, i Brentisiaethau Gradd 'integredig', bydd hyn yn cynnwys asesiadau EPA.

Mae'r prosesau allanol i fonitro, adolygu a sicrhau ansawdd yn cynnwys ystod o asiantaethau a bydd angen i'r darparwr addysg uwch sicrhau cydymffurfiaid gyda'u gofynion o ran sicrhau ansawdd.

Monitro ac adolygu darpariaeth hyfforddiant prentisiaeth yn allanol

Mae'r Swyddfa Myfyrwyr/QAA yn darparu sicrwydd i'r ESFA am ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant prentisiaeth gan aelodau o'r gofrestr RoATP, i'r holl ddarparwyr sy'n cynnig hyfforddiant prentisiaeth ar lefel 6 neu'n uwch ac ar y cyd gydag Ofsted i ddarparwyr sy'n cynnig hyfforddiant prentisiaeth ar lefelau 4 i 5 sy'n cynnwys cymhwyster addysg uwch. Mae Ofsted yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y darparwyr yn barhaus sy'n cynnig unrhyw hyfforddiant prentisiaeth arall ar lefel 4/5.

Gallai'r holl raglenni addysg uwch fod yn atebol i fonitro ac adolygu'n allanol gan QAA a gan y Swyddfa Myfyrwyr.

Mae'r gwaith ar y cyd gan y Swyddfa Myfyrwyr ac Ofsted o dan ddatblygiad ac yn cynnwys QAA. Bydd manylion y dull yma wedi'i gyhoeddi ar wefannau QAA a'r Swyddfa Myfyrwyr pan fydd ar gael.

Monitro ac adolygu Asesiadau o Ganlyniadau Terfynol yn allanol (Sicrwydd Ansawdd Allanol)

Tra bo gan eraill o fewn y system gyfrifoldeb am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth mewn prentisiaethau, mae gan y Sefydliad Prentisiaethau'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ansawdd y broses EPA. O dan Ddeddf Menter 2016, mae'n rhaid i'r Sefydliad Prentisiaethau 'sicrhau y gwneir gwerthusiadau o ansawdd asesiadau mewn prentisiaethau'. Yr enw ar y gwerthusiad yma, i sicrhau bod asesiad yn deg, cadarn a chymaradwy rhwng gwahanol gyrff asesu, yw Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA). Mae gan y Sefydliad Prentisiaethau ddwy rôl bwysig wrth ddarparu Sicrwydd Ansawdd Allanol i brentisiaethau:

- yn gyntaf, mae gan y Sefydliad Prentisiaethau rôl yn goruchwyllo Sicrwydd Ansawdd Allanol ar draws yr holl ddarparwyr Sicrwydd Ansawdd Allanol i sicrhau ansawdd, cysondeb a chredadwyedd
- yn ail, bydd y Sefydliad Prentisiaethau'n gweithredu fel darparwr Sicrwydd Ansawdd Allanol ar gyfer safonau lle mae'r 'Arloeswr' yn credu mai dyma'r ateb mwyaf priodol, neu lle nad oes opsiwn addas arall.

Mae'r Sefydliad Prentisiaethau'n rhoi'r cyfle i gyflogwyr sy'n 'Arloeswyr' enwebu corff i ddarparu Sicrwydd Ansawdd Allanol ar gyfer y safonau y maent yn eu datblygu. Gallai 'Arloeswyr' ddewis: model dan arweiniad y cyflogwr, corff proffesiynol, Ofqual neu'r Sefydliad Prentisiaethau; yn achos y Prentisiaethau Gradd 'integredig' mae QAA yn opsiwn ychwanegol.³³ Gellir gweld y cyrff a gymeradwywyd i ddarparu Sicrwydd Ansawdd Allanol ar wefan y Sefydliad Prentisiaethau.

Yr Alban

Mae gan Skills Development Scotland gyfrifoldeb i sicrhau ansawdd pob un o'r rhaglenni prentisiaeth yn yr Alban; mae hyn yn golygu y byddent, gyda Phrentisiaethau â Gradd, yn gweithio gyda QAA a chyrrff rheoleiddio eraill i alinio prosesau rheoli ansawdd SDS gyda'r strwythurau presennol lle bo modd er mwyn sicrhau dull esmwyth o weithio ac i leihau dyblygiad ymdrech.

Cymru

Yng Nghymru, bydd Prentisiaethau Gradd yn cael eu monitro a'u hadolygu yn rhan o ddarpariaeth y sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. Yn gyson gyda safonau QAA ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni dysgu mewn addysg uwch yng Nghymru, bydd gofyn i Brentisiaethau Gradd gydymffurfio gyda threfniadau'r broses i sicrhau bod safonau QAA yn derbyn sylw.

Yn ogystal, bydd CCAUC a Llywodraeth Cymru'n ystyried sut i gyflawni adolygiad ffurfiannol Prentisiaethau Gradd gan ddechrau o 2018-19 hyd 2020-21 er mwyn hysbysu datblygiadau yn y maes hwn yn y dyfodol, ac i alluogi lledaenu arferion da.

Mae'r trefniadau monitro ac adolygu rhwng y darparwr, y cyflogwr a'r prentis dan adolygiad ar hyn o bryd ond mae gofyn i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC gyflwyno data fel sy'n ofynnol gan CCAUC. Disgwylir hefyd y dylid adolygu cynnydd y prentisiaid bob deufis yn rhan o'r contract prentisiaeth.

³³ Yn amodol ar gymeradwyaeth gan Bwyllgor Ansawdd y Sefydliad Prentisiaethau.

4 Y casgliadau a'r camau nesaf

Mae sgôp o fewn systemau ansawdd presennol darparwyr addysg uwch y DU, sydd wedi'u tanategu gan y Cod Ansawdd, i roi lle i fodelau newydd o brentisiaethau, a rhai sy'n datblygu ar draws y DU. Efallai y bydd modelau prentisiaeth o'r fath yn gofyn bod darparwyr addysg uwch yn meddwl yn greadigol am ddarpariaeth prentisiaethau, yn addasu prosesau sy'n bodoli'n barod, ac yn ystyried addasiadau neu eithriadau i'w rheoliadau, eu polisiau a'u harferion presennol.

Wrth i fodelau prentisiaeth dyfu a datblygu, dylai darparwyr barhau i sicrhau bod ansawdd a safonau'n cael eu cynnal er mwyn diogelu eu dyfarniadau, y prentisiaid ac enw da addysg uwch y DU ac, yn ei dro, i ateb anghenion sgiliau'r cyflogwyr a'r economi.

Mae QAA yn croesawu trafod a rhannu gwybodaeth yn barhaus mewn perthynas â dulliau sicrhau ansawdd newydd a rhai sy'n datblygu. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ceisio cefnogi trafodaethau o'r fath a darparu cyfleoedd i rannu a lledaenu arferion newydd ac arloesol.

5 Atodiadau

5.1 Aelodau'r gweithgor addysg uwch mewn prentisiaethau (ar gyfer yr argraffiad cyntaf)

Adrian	Anderson	Cyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Prifysgolion (UVAC)
Cris	Arnold	Prifysgol Abertawe
Dr Darryll	Bravenboer	Prifysgol Middlesex
Karen	Caine	Prifysgol Aston
Peggy	Cooke	Prifysgol Fetropolitan Manceinion
Scott	Court	CCAULI
Jackie	Cresswell-Griffith	CCAUC
Robbie	Davis	Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon)
Joy	Elliot-Bowman	Independent HE
Dr Alison	Harold	Skills Development Scotland
Ailsa	Harris	Yr Adran Addysg (Lloegr)
Tina	Hawkins	Llywodraeth Cymru
Els	Howard	Pearson
Darren	James	Prifysgol South Bank Llundain
Nikki	Jones	Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield
Ben	Kinross	Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid (UCM)
Dr Joe	Marshall	Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes (NCUB)
Alison	May	Prifysgol South Bank Llundain
Conor	Moss	Prifysgol Sheffield Hallam
Dr Karen	Petrie	Prifysgol Dundee
Elly	Philpott	Y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI)
Chris	Scriven	Coleg Dinas Bryste
Yr Athro Mark	Stone	Prifysgol Plymouth / Y Gymdeithas Darpariaeth Gydweithredol (ACP)
Kirsty	Tallis	Prifysgol Derby
Greg	Wade	Prifysgolion y DU
Robyn	Whitmore	Yr Adran Addysg (Lloegr)
Jess	Wood	CCAULI

Aelodau o staff QAA

Simon	Bullock	QAA
James	Harrison	QAA yr Alban
Dr Cathy	Kerfoot (Cadeirydd)	QAA
Mahfia	Watkinson	QAA

5.2 Aelodau'r gweithgor addysg uwch mewn prentisiaethau (ar gyfer yr ail argraffiad)

Adrian	Anderson	Cyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Prifysgolion (UVAC)
Cris	Arnold	Prifysgol Abertawe
Yvonne	Beach	Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield
Dr Darryll	Bravenboer	Prifysgol Middlesex
Karen	Caine	Prifysgol Aston
Charlotte	Corrish	Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol
Emily	Corsellis	Yr Adran Addysg (Lloegr)
Richard	Guy	Y Sefydliad Prentisiaethau
Tim	Harris	Independent HE
Tina	Hawkins	Llywodraeth Cymru
Maighread	Hegarty	Prifysgol South Bank Llundain
Brian	Hermiston	Skills Development Scotland
Els	Howard	Pearson
Darren	James	Prifysgol South Bank Llundain
Hilary	Jones	Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol
Nikki	Jones	Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield
Raymond	Kelly	Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon)
Ben	Kinross	Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid (UCM)
Peter	Millington	Yr Adran Addysg (Lloegr)
Ann	Minton	Prifysgol Derby
Sam	Moorwood	Prifysgol Sheffield Hallam
Conor	Moss	Prifysgol Sheffield Hallam
Cliona	O'Neill	CCAUC
Ali	Orr	Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes (NCUB)
Dr Karen	Petrie	Prifysgol Dundee
Arti	Saraswat	Cymdeithas y Colegau
Chris	Scriven	N-Gaged Training and Recruitment
Jocelyn	Simmons	Y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI)
Yr Athro Mark	Stone	Prifysgol Plymouth / Y Gymdeithas Darpariaeth Gydweithredol (ACP)
Greg	Wade	Prifysgolion y DU
Kate	Wicklow	GuildHE
Steven	Williams	CCAUC
Jessica	Wood	Y Swyddfa Myfyrwyr

Aelodau o staff QAA

Simon	Bullock	QAA
Ruth	Burchell	QAA
Dr Alison	Felce	QAA
James	Harrison	QAA yr Alban
Dr Andy	Smith (Cadeirydd)	QAA

5.3 Cyrff allweddol

Corff	Gwefan
Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon)	www.economy-ni.gov.uk
Yr Adran Addysg (Lloegr)	www.gov.uk/topic/further-education-skills/apprenticeships
Yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA)	www.gov.uk/government/organisations/education-and-skills-funding-agency
GuildHE	www.guildhe.ac.uk
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)	www.hefcw.ac.uk/
Y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org
Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes (NCUB)	www.ncub.co.uk
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (NIPSO)	nipso.org.uk/nipso
Y Swyddfa Myfyrwyr	www.officeforstudents.org.uk
Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol	www.oiahe.org.uk
Ofqual	www.gov.uk/government/organisations/ofqual
Ofsted	www.gov.uk/government/organisations/ofsted
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)	www.qaa.ac.uk
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch yr Alban (QAAS)	www.qaa.ac.uk/Scotland
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban	www.spsso.org.uk
Skills Development Scotland (SDS)	www.skillsdevelopmentscotland.co.uk
Prifysgolion y DU	www.universitiesuk.ac.uk
Cyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Prifysgolion (UVAC)	www.uvac.ac.uk

5.4 Dogfennau allweddol ac adnoddau eraill

Teitl y ddogfen/adnodd	Lleoliad
Canllawiau i 'Arloeswyr' gan y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org/developing-apprenticeships/how-to-develop-an-apprenticeship-standard-guide-for-trailblazers/
Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU	www.qaa.ac.uk/quality-code
Y Gofrestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaeth (RoATP)	www.gov.uk/guidance/register-of-apprenticeship-training-providers
Y Gofrestr o Ddarparwyr Sicrwydd Ansawdd Allanol [Register of External Quality Assurance Providers (EQAP)] y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org/quality/resources/register-of-eqa-providers/
Y Gofrestr o Gyrff Asesu Canlyniadau Terfynol (RoEPAO)	www.gov.uk/government/publications/using-the-register-of-apprentice-assessment-organisations
Cyllido prentisiaethau: rheolau i ddarparwyr sy'n gyflogwyr	www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-funding-and-performance-management-rules-2017-to-2018
Datganiad Ansawdd y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org/quality/what-is-a-quality-apprenticeship/
Defnyddio is-gontractwyr wrth ddarparu prentisiaethau: Polisiâu cefndirol ac enghreifftiau	https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/698909/Subcontracting_guidance.pdf
Fframwaith arfer da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol	www.oiahe.org.uk/providers-and-good-practice/good-practice-framework.aspx
Fframwaith arfer da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol: Datblygu cyfleoedd dysgu gydag eraill	www.oiahe.org.uk/providers-and-good-practice/good-practice-framework/delivering-learning-opportunities-with-others.aspx
Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am ddarparwyr addysg a darparwyr hyfforddiant	www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/641779/Procedure_for_dealing_with_complaints_about_providers_2017.pdf
Rheolau cyllido prentisiaeth a rheoli perfformiad i ddarparwyr hyfforddiant	www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-funding-and-performance-management-rules-2017-to-2018
Safonau Prentisiaeth a gymeradwywyd gan y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org/apprenticeship-standards/
Y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org/
Sicrwydd Ansawdd Allanol y Sefydliad Prentisiaethau	www.instituteforapprenticeships.org/quality/external-quality-assurance/

6 Nodweddion y Rhaglenni Prentisiaeth - Cymharu'r pedair gwlad

Nodweddion y Rhaglen Brentisiaeth	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Lloegr
A oes angen swydd o ddiwrnod cyntaf y brentisiaeth?	Oes	Rhaid bod yn gyflogedig.	Oes	Oes
Swydd Newydd/ Rôl Newydd	Ie	Ie	Recriwtiaid newydd neu'r rheiny sydd wedi bod yn gweithio i'r cyflogwr ac sydd angen gwella eu sgiliau neu ddysgu sgiliau newydd.	Gallai fod
Swydd Bresennol	Na	Rhaid gallu dangos bod angen yn bodoli am ddysgu maint sylweddol o wybodaeth a sgiliau newydd.	Gwelwch yr adran flaenorol.	Gall fod
Lleiafswm oriau gwaith dan gontract bob wythnos	O leiaf 21 o oriau gwaith dan gontract bob wythnos.	Dim lleiafswm oriau o fewn rheolau'r cynllun ond os yw'n gweithio'n rhan amser, bydd hyd y brentisiaeth yn cael ei ymestyn i gyfateb â hynny.	Gwaith a hyfforddiant am o leiaf 16 o oriau gwaith yr wythnos.	O leiaf 30 o oriau gwaith yr wythnos fel arfer, ond os yw'n gweithio'n rhan amser, bydd hyd y brentisiaeth yn cael ei ymestyn i gyfateb â hynny.
Lefel Addysg (Isaf - Uchaf)	Lefel 2/3 i lefel 8.	Lefel SCQF 5 i SCQF 11.	Lefel 2 i lefel 7.	Lefel 2 (canolradd) i lefel 7 (meistr).

Nodweddion y Rhaglen Brentisiaeth	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Lloegr
Faint o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith a bennwyd	80:20 (rhyddhau am ddiwrnod, fel arfer)	Yn amrywiol yn dibynnu ar y fframwaith.	Mae'r fframweithiau prentisiaeth yn nodi'r nifer gyfan o oriau dysgu yn y gwaith y dylai prentis eu derbyn er mwyn cwblhau'r fframwaith.	80:20 (o leiaf 20%).
Polisi Oed/ Ffocws Oed	I bob oedran, ond ar lefel 2/3 mae'r ffocws ar bobl 16 i 24 oed, gyda chyfyngiadau ar y gefnogaeth a roir i bobl 25 oed neu'n hŷn mewn sectorau economaidd sy'n cael blaenoriaeth. Dim cyfyngiadau ar lefel 4 neu'n uwch.	Mae'r ffocws ar bobl 16 i 24 oed ac mae nifer gynyddol o fframweithiau'n agored i bobl 25 oed neu'n hŷn.	I bob oedran, ond mae ymgysylltu â phobl 16 i 19 oed yn derbyn blaenoriaeth.	I bob oedran, ond mae cymhelliant ariannol i annog cyflogwyr i recriwtio pobl 16 i 18 oed.
Cymhwysedd y Sector Cyhoeddus	Dim cefnogaeth	O Ebrill y 1af, bydd gan y sector cyhoeddus yr un mynediad at gyllido â'r sector preifat.	Dim gwahaniaethu rhwng cymhwysedd y sector cyhoeddus a'r sector preifat.	Mae'r sector cyhoeddus yn integrol i brentisiaethau yn Lloegr ac mae'r sector cyhoeddus yn targedu cyrff gyda mwy na 250 o bobl ynddynt.
Pennu Targedau o ran Niferoedd ar Brentisiaethau	Dim. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn canolbwyntio ar gadw pobl ar y cynlluniau ac ar gyflawniad y cymwysterau a dargedwyd.	30,000 o bobl yn cychwyn yn flynyddol erbyn 2020.	O leiaf 100,000 o Brentisiaethau o safon uchel yn ystod y cyfnod gweinyddol yma.	3 miliwn o bobl yn dechrau ar Brentisiaethau erbyn 2020.

Nodweddion y Rhaglen Brentisiaeth	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Lloegr
Lefel y Cyllido	<p>Ar gyfer lefel 2/3, i rai 16 i 24 oed, cyllidir 100% o'r hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gan yr Adran.</p> <p>I rai 25 oed neu'n hŷn, cyllidir 50% o'r hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gan yr Adran mewn sectorau â blaenoriaeth.</p> <p>Ar gyfer lefel 4 neu'n uwch, cyllidir 100% o'r hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith gan yr Adran.</p>	Cyfraniad tuag at gostau'r hyfforddiant, y lefelau cyllido yn ddibynnol ar oedran a'r fframwaith.	Model Cyllido ar Sail Gweithgareddau, sy'n ariannu cost y gweithgaredd gyda chynyddiadau yn ôl y sector, iaith ac ati. Mae'r drefn yn gymhleth ac rydym yn edrych ar ffyrdd o symleiddio'r model.	<p>Gall y cyflogwyr sy'n talu'r ardoll ddefnyddio'r cronfeydd i dalu 100% o'r costau'r hyfforddi (hyd at y band ariannu) nes bydd eu cronfeydd wedi dod i ben. Yna maent yn symud at gyd-fuddsoddiad.</p> <p>I gyflogwyr nad ydynt yn talu'r ardoll, mae'r Llywodraeth yn talu 90% (i fyny at y band ariannu) ac mae'r cyflogwyr yn talu 10% o'r cyd-fuddsoddiad.</p>
Y Ddeddfwriaeth Berthnasol	Dim	Dim	Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009	Deddf Menter 2016 / Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009

Nodweddion y Rhaglen Brentisiaeth	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru	Lloegr
Nodiadau eraill	<p>Tanategir cymwysterau prentisiaeth gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau'n fanwl sydd eu hangen ar gyfer rôl swydd. Maent yn rhan annatod o ansawdd prentisiaethau yng Ngogledd Iwerddon ac yn cael eu parchu gan gyflogwyr a'n darparwyr hyfforddiant.</p>	<p>Tanategir cymwysterau prentisiaeth gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau'n fanwl sydd eu hangen ar gyfer rôl swydd. Maent yn rhan annatod o ansawdd prentisiaethau yn yr Alban ac yn cael eu parchu gan gyflogwyr, ein darparwyr hyfforddiant a'n dysgwyr.</p>	<p>Tanategir cymwysterau prentisiaeth gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, lle bo'n briodol. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau'n fanwl sydd eu hangen ar gyfer rôl swydd. Maent yn rhan annatod o ansawdd prentisiaethau yng Nghymru ac yn cael eu parchu gan gyflogwyr a'n darparwyr hyfforddiant.</p> <p>Mae Cymru'n parhau'n ymroddedig i gynnal cymwysterau fel elfennau allweddol o fframweithiau prentisiaeth. Mae cymwysterau proffesiynol neu gymwysterau rheoledig yn fwy hwylus i ddysgwyr eu trosglwyddo o fewn ac ar draws sefydliadau, sectorau, rhanbarthau a gwledydd a darparu meincnod o ran ansawdd i gyflogwyr, sy'n pennu a yw prentis yn gymwys. I brentisiaid, maent yn darparu tystiolaeth o gymhwysedd a gwybodaeth a fydd yn gwireddu eu dyheadau gyrfao.</p>	<p>Yn Lloegr, mae Safonau Prentisiaeth yn nodi'r dyletswyddau, yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol. Y cyflogwyr sy'n arwain prentisiaethau: y cyflogwyr sy'n gosod y safonau ac yn creu'r galw i brentisiaid ateb eu hanghenion o ran sgiliau.</p> <p>Nid yw Safonau Prentisiaeth yn Lloegr wedi'u seilio ar gymwysterau bellach. I brentisiaid, mae cyflawni'r Asesiad o'r Canlyniad Terfynol yn darparu tystiolaeth o gymhwysedd galwedigaethol.</p> <p>Mae lleiafswm o'r holl brentisiaethau'n cynnwys cymwysterau gorfodol (mae mwyafrif y safonau ar lefel 6 neu'n uwch yn cynnwys gradd orfodol). Caniateir cymwysterau gorfodol fel eithriad yn oes tystiolaeth o ofyniad proffesiynol, rheoliadol neu gynnydd gyrfao.³⁴</p>

³⁴ Gwelwch www.instituteforapprenticeships.org/developing-new-apprenticeships/resources/mandated-qualifications-information-and-evidence-requirements/

7 Rhestr termau

Dyma restr o'r termau a ddefnyddiwyd yn y ddogfen hon; efallai na fydd y termau a'u diffiniadau cysylltiedig yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Dylai'r cyd-destun lle defnyddir y termau yn y ddogfen ddangos ym mha wlad/gwledydd y maent yn berthnasol.

Term	Ystyr
AELP	Y Gymdeithas Darparwyr Dysgu a Chyflogwyr [Association of Employment and Learning Providers]
Ail geisio	Lle mae angen dysgu ychwanegol; mae modd ei ariannu
Ailsefyll	Os nad oes angen dysgu ychwanegol; ni ellir ei ariannu
AMC	Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol
Ardoll Brentisiaethau	Ardoll ar gyflogwyr yn y DU i ariannu prentisiaethau newydd.
Asesiad EPA	Asesiad o'r Canlyniad Terfynol [End Point Assessment]. Asesiad cyfannol ac annibynnol o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad a ddysgwyd drwy gydol safon brentisiaeth.
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Cod Ansawdd	Mae Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU yn rhoi man cychwyn ar y cyd i'r holl ddarparwyr addysg uwch ar gyfer gosod, disgrifio a sicrhau safonau academiaidd eu rhaglenni a'u dyfarniadau addysg uwch ac ansawdd y cyfleoedd dysgu y maent yn eu darparu.
Cofrestr RoATP	Y Gofrestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Prentisiaeth [Register of Apprenticeship Training Providers]
Cofrestr RoEPAO	Y Gofrestr o Gyrrff Asesu Canlyniadau Terfynol [Register of End Point Assessment Organisations]
Corff PSRB	Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio
Darparwr Hyfforddiant	Mae'r ESFA yn defnyddio'r term 'darparwr' i gynnwys unrhyw sefydliad sydd ar y gofrestr o ddarparwyr hyfforddiant prentisiaeth ac sydd wedi'u penodi gan gyflogwr a/neu sy'n dal cytundeb cyllido cyfredol gyda'r ESFA neu sydd wedi'u contractio drwy brif ddarparwr i ddarparu hyfforddiant ac asesiadau ar y rhaglen, yn rhan o'r rhaglen brentisiaeth y cytunwyd arni gyda'r cyflogwr.
Darparwr sy'n gyflogwr	Unrhyw sefydliad sy'n darparu rhai neu bob un o elfennau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith y brentisiaeth i'w staff eu hunain ac sy'n dal contract gyda'r ESFA. Bydd gan y darparwr sy'n gyflogwr y cyfrifoldeb cyffredinol am yr hyfforddiant a'r asesiadau ar y rhaglen y maent hwy eu hunain neu eu his-gontractwyr darparu'n eu cynnal a bydd ganddynt y cyfrifoldeb am drefnu asesiadau o'r canlyniadau terfynol wedi'u darparu gan gyrrff asesu canlyniadau terfynol.

Term	Ystyr
Datganiad Ymrwymiad	Cytundeb wedi'i lofnodi rhwng y cyflogwr, y prentis a'r prif ddarparwr sy'n nodi sut y byddent yn cefnogi cyflawniad y brentisiaeth.
EPAO	Corff Asesu Canlyniadau Terfynol [End Point Assessment Organisation]
EQA	Sicrwydd Ansawdd Allanol [External Quality Assurance]
EQAP	Darparwr Sicrwydd Ansawdd Allanol [External Quality Assurance Providers]
ESFA	Yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau [Education and Skills Funding Agency]
Fframwaith cymwysterau addysg uwch	Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd.
Fframwaith Prentisiaeth	Llwybr sy'n disgrifio gwahanol rolau prentisiaeth, wedi'u datblygu'n bennaf gan gyrrff sector ac yn aml iawn maent wedi'u canolbwyntio ar y cymhwyster. Mae'r asesiad yn digwydd drwy gydol y brentisiaeth.
Fframwaith	1. Gwelwch Fframwaith Prentisiaeth 2. Gwelwch Fframwaith cymwysterau addysg uwch
FHEQ	Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon
Gofynion y Porth	Unrhyw ofynion y dylid eu cwblhau cyn y gall prentis gael yr asesiad EPA. Gallai ymwneud er enghraifft â: gofynion mewn Saesneg a Mathemateg, cymwysterau gorfodol wedi'u cymeradwyo a'u disgrifio yn y safon, unrhyw ofynion neu ganlyniadau sy'n tanatgu dulliau asesu EPA, megis portffolio sy'n dangos agweddau penodol o'r safon, cadarnhad bod y cyflogwr wedi penderfynu bod y prentis yn barod am yr asesiad EPA.
Grŵp o 'Arloeswyr'	'Arloeswyr' yw grŵp o gyflogwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd i gynllunio safonau prentisiaeth newydd ar gyfer galwedigaethau o fewn eu sectorau.
Hyfforddiant i fwrdd o'r gwaith	Dysgu a wneir y tu allan i'r amgylchedd gwaith arferol o ddydd i ddydd ac yn arwain at gyflawni prentisiaeth.
Hyfforddiant yn y gwaith	Hyfforddi gweithwyr yn eu gweithle tra bo ef neu hi'n gwneud y swydd ei hun

Term	Ystyr
Is-gontractwr Darparu	Unrhyw sefydliad sydd wedi'i gontractio drwy brif ddarparwr neu ddarparwr sy'n gyflogwr i ddarparu hyfforddiant prentisiaeth i ffwrdd o'r gwaith, neu addysg mewn Saesneg neu Fathemateg neu asesiad wedi'i gynllunio ar y rhaglen.
NCUB	Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes [National Centre for Universities and Business]
NIPSO	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon [Northern Ireland Public Services Ombudsman]
Ofqual	Y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau
Ofsted	Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
Porth i'r asesiad EPA	Y pwynt pan fydd y cyflogwr yn hyderus bod y prentis yn gymwys yn yr alwedigaeth ac yn barod i gael yr asesiad EPA.
Prentis	Pawb sy'n derbyn hyfforddiant prentisiaeth ar sail fframwaith prentisiaeth neu safon brentisiaeth.
Prentisiaeth Gradd	Prentisiaeth lle mae'r prif ddysgu'n cynnwys cymhwyster addysg uwch gorfodol ar lefel 6 neu 7 (gradd baglor neu radd meistr).
Prentisiaeth Lefel Uwch	Prentisiaethau lle mae'r prif ddysgu ar lefel 4 (lefel 6 yn yr Alban) neu'n uwch.
Prentisiaeth	Prentisiaeth yw swydd gyda hyfforddiant sy'n cyrraedd safonau diwydiannol. Dylai ymwneud â mynediad i alwedigaeth gydnabyddedig, dylai gynnwys rhaglen sylweddol o hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith a dylai brofi cymhwysedd galwedigaethol y prentis drwy asesiadau ffurfiannol a chrynodol.
Y Prif Ddarparwr	Unrhyw sefydliad sy'n dal contract gyda'r ESFA y mae'r ESFA yn cyfeirio ariannau drwyddo'n uniongyrchol o gyfrif digidol y darparwr neu o gyd-fuddsoddiad y Llywodraeth a'r cyflogwr. Bydd gan y prif ddarparwr y cyfrifoldeb cyffredinol am yr hyfforddiant a'r asesiadau ar y rhaglen y maent hwy eu hunain neu eu his-gontractwyr darparu'n eu cynnal a bydd ganddynt berthynas gytundebol ar ran y cyflogwr ar gyfer yr asesiad EPA a weithredir gan gyrff asesu canlyniadau terfynol.
QAA	Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
QAAS	Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (Yr Alban)
RhDDC/GDPR	Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
Safon Academaidd	Y safonau a osodir gan gyrff dyfarnu graddau ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau.

Term	Ystyr
Safon Brentisiaeth integredig / prentisiaeth integredig	Pan fydd yr asesiad EPA wedi'i ymgorffori yn y prif nod dysgu (sef gradd neu gymhwyster addysg uwch arall fel arfer). Yn yr achosion hyn, nid oes angen asesiad annibynnol ychwanegol.
Safon Brentisiaeth	Datganiad o'r dyletswyddau, a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer galwedigaeth benodol, ac y bydd raid i brentis eu harddangos ar ddiwedd y brentisiaeth mewn asesiad o'r canlyniad terfynol.
Safon	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gwelwch Safon Brentisiaeth 2. Gwelwch Safon Academaidd
SCQF	Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban
SDS	Skills Development Scotland
SPSO	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban [Scottish Public Services Ombudsman]
SQA	Awdurdod Cymwysterau'r Alban [Scottish Qualifications Authority]
UCM	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
UVAC	Cyngor Dyfarniadau Galwedigaethol y Prifysgolion [University Vocational Awards Council]

QAA2166 - Gorffennaf 2018

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2018
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: www.qaa.ac.uk